# Y DINESYDD

Gorffennaf / Awst 2023 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 479 £1.20




**Gemau Stryd Yr Urdd t.25**

**Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd t.25**







**Criced Blwyddyn 5 a 6, Ysgol y Berllan Deg t.20**

**Nia Morais, Bardd Plant Cymru 2023-25 t.7**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Ela Pari Huws**

***Golygydd Medi***
***David Charles***

Cyfraniadau erbyn **27 Awst** at:
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue,
Caerdydd, CF5 2HR
07885 905318

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## O'r Pwyllgor

Cynhaliwyd pwyllgor a chwrdd blynyddol ar nos Iau, 8 Mehefin, yng nghartref Arthur Evans gyda Iestyn Davies yn cadeirio cyn i Eirian Dafydd lywio'r cwrdd blynyddol.

Daeth Glenys Llewelyn i'r cwrdd blynyddol a derbyniodd wahoddiad i ymuno â'r Pwyllgor - croeso Glenys a hefyd i Ela Pari Huws ddaeth i'w phwyllgor cyntaf.

Fel y gwelwch yma mae'r rhifyn hwn yng ngofal Ela - y golygydd ifancaf o bosib ers dyddiau'r golygydd cyntaf Norman Williams hanner canrif yn ôl!

Diolch arbennig i Ela am ei gwaith golygyddol.

Diolch hefyd i Manon Phillips am gytuno i weithredu fel cadeirydd am flwyddyn. Manon sydd yng ngofal trefniadau dathliad 50 *Y Dinesydd* ym mhabell Y Llais yn Tafwyl, Parc Bute, bore Sul, 16 Gorffennaf, 11.30-12.30. Mae'n gyfle i bawb sydd wedi bod ynghlwm wrth y papur dros y blynyddoedd i ddathlu'r achlysur arbennig hwn. Bydd Gwilym Dafydd yn cadeirio a bydd croeso cynnes i bawb ddweud gair byr. Bydd Delwyn Sion yn canu cân neu ddwy a bydd cacen a gwydriad o prosecco i bawb a chyfle i gymdeithasu.

Mawr obeithiwn y byddwch yn gallu ymuno – dewch yn llu!

---

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

---

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Waw! Sôn am haf !"*

Waw! Sôn am haf! Does dim lle i neb rwgnach am haf sâl eleni gan hyd yn hyn dan ni wedi profi cyfnodau o dywydd braf a phoeth sy'n cystadlu'n ffafriol â'r tywydd hafaidd yn Sbaen, Portiwgal a Gwlad Roeg! Yma yng Nghaerdydd mae'r tymheredd wedi codi o'r ugeiniau yn aml tra tre Porthmadog ydy'r lle poethaf yng Nghymru ar fwy nag un achlysur yn ystod yr wythnosau diwethaf ac ar un diwrnod cododd y tymheredd i 31 gradd. Ffiw!

Dros y Sulgwyn cafwyd chwip o Eisteddfod yr Urdd yn nhre Llanymddyfri â'r tywydd wedi denu miloedd lawer i ymweld â'r Eisteddfod. Buodd lawer o blant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro yn fuddugol yn yr Eisteddfod a'r parthau hyn odd ar ben rhestr y pwyntiau ar ddiwedd yr wythnos hefo Ceredigion yn dynn ar ein hôl. Felly, llongyfarchiadau i bawb ac yn arbennig i'r athrawon a'r hyfforddwyr am roi o'u hamser cwbl ymroddedig dros y misoedd yn paratoi yr holl gystadleuwyr.

Enillwyd dwy o brif wobrau'r Eisteddfod gan bobl â chysylltiad â Chaerdydd sef Owain Williams a Gwilym Morgan. Cipiodd Owain y Fedal Ryddiaith a Gwilym Morgan yn cipio Medal y Dysgwr dan 19 oed. Meddyg ifanc ydy Owain ac yn byw yma yn y ddinas ond mae o newydd gael swydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen y Bont Ar-Ogwr. Daw o ardal Abergele yn wreiddiol. Yna Gwilym Morgan sy'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yn y ddinas. Ar ben hynny un o Lywyddion yr Eisteddfod oedd y ddarlledwraig Heledd Cynwal a fu'n byw yn Rhiwbeina am gyfnod cyn i'r teulu symud i bentref Bethlehem yn Sir Gaerfyrddin. Ar ben bod yn Llywydd yn yr Eisteddfod buodd hi a Trystan Ellis-Morris yn cyflwyno rhaglenni S4C o stiwdio ar faes yr Eisteddfod gydol yr wythnos a chawson nhw hwyl ar y gwaith o ddehongli bwrlwm yr Eisteddfod i ni wylwyr S4C.

Mwynheais i'r Eisteddfod yn fawr iawn ond doedd fformat y seremonïau ddim yn plesio hen ddeinosor fel minnau mae rhaid i mi gyfaddef ac oedd ymgais i foderneiddio "Ymdeithgan yr Urdd" ar ddiwedd pob seremoni yn ddiflas tu hwnt! Sylwais i ar un gair anghywir yng ngeiriau'r Ymdeithgan yn Rhaglen y Dydd sef sôn am "hen alawon" yn lle "hen athrawon dysg a moes". Gobeithio bydd y gair cywir yn ymddangos yn Rhaglen y Dydd Eisteddfod yr Urdd ym Meifod y flwyddyn nesa ac ar ddiwedd y seremonïau diwygiedig!

Siom i mi oedd deall ni fydd egin Ysgol Gymraeg yn agor yn Nhre Trefynwy ym mis Medi wedi'r cwbl am wahanol resymau ond mae'r rhieni yn mynd i ddal i bwyso am weld yr egin ysgol yn agor ym Medi 2024. Felly, dyfal donc biau hi a phob llwyddiant i'r ymdrech i sicrhau addysg Gymraeg mewn ardal ar y ffin â Lloegr – "Rhaid amddiffyn y ffin" chwedl y diweddar Dr Jac L Williams!

Os buodd chwe mis cyntaf 2023 yn gyforiog o ddigwyddiadau bach a mawr mae'r chwe mis nesa yn argoeli bod yr un mor llawn! Mae'r rhyfel yn Wcráin yn dal i rygnu ymlaen â'r Rwsiaid yn dal i gyflawni trosedd ar ôl trosedd yn erbyn pobl gyffredin Wcráin. Y gweithrediad dieflig diweddar ydy ffrwydro argae enfawr Nova Kakhovka yn ne'r wlad gan achosi difrod helaeth a difrifol a gorfodi miloedd o bobl druan i ffoi rhag y lli dŵr o'r argae. Bydd effaith yr anfadwaith hwn yn para am flynyddoedd. Rhaid rhwystro cynlluniau dieflig Putin doed â ddelo ond sut gan ei fod yn bygwth defnyddio arfau niwclear pe bai NATO a gwledydd Ewrop yn cyhoeddi rhyfel agored yn ei erbyn.

Yn y byd gwleidyddol ym Mhrydain mae 'na anhrefn rhwng problemau yr SNP yn yr Alban, Plaid Cymru yng Nghymru ac ymddiswyddiad annisgwyl Boris Johnson o fod yn aelod seneddol yn Llundain. Yn anffodus bydd y gŵr di-egwyddor hwn yn ddraenen yn ystlys Rishi Sunak y Prif Weinidog presennol am fisoedd i ddod gan fod Johnson yn dal dig yn ei erbyn ac yn ei feio am iddo orfod rhoi gorau i fod yn Brif Weinidog Prydain. Felly, rhwng pawb a phopeth mae hi'n anodd gwybod beth bydd yn digwydd nesa yn y byd gwleidyddol. Etholiad Cyffredinol hwyrach? Cawn weld!

Mis diwethaf daeth y grŵp pop poblogaidd ac enwog Coldplay i ganu ar ddwy noson yn ein Stadiwm Genedlaethol gan ddenu cynulleidfaoedd o 60,000 bob nos i wrando arnyn nhw. Cafodd un gantores Gymraeg ei hiaith sef Hana Lili o Fro Morgannwg wahoddiad gan y grŵp i ganu o flaen miloedd cyn iddynt berfformio a buodd Côr Meibion Pen y Bont yn canu ein hanthem genedlaethol ar un o'r nosweithiau. Go dda ynte!

Yn anffodus y mis diwethaf buodd yr Arglwydd Morris o Aberafan farw ac yntau yn 91 oed. Ymhlith y swyddi a ddaeth i'w ran oedd bod yn Ysgrifennydd Cymru yn y llywodraeth Lafur rhwng 1974 a 1979 a buodd yn fawr ei sêl - a'i ddylanwad dros ennill Senedd ym Mae Caerdydd.

Y mis diwethaf cafwyd tipyn o gyffro tua Llangrannog pan y cynhaliwyd seremoni dadorchuddio cerflun i goffáu Sarah Jane Rees, sef Cranogwen, gwraig o flaen ei hamser am nifer o resymau. Crëwyd y cerflun trawiadol gan y cerflunydd Sebastien Boyesen sy'n byw yn lleol. Trefnwyd gorymdaith liwgar o Wersyll yr Urdd lawr y ffordd i safle'r cerflun a daeth cannoedd ynghyd ar gyfer yr achlysur. Dyna'r trydydd cerflun i gofio am ferched amlwg yn y gymdeithas. Dadorchuddiwyd y cyntaf ynghanol Caerdydd i gofio Betty Campbell y brifathrawes ddu gyntaf yn Nhre Bute a'r ail gerflun oedd i gofio am Elaine Morgan yn Aberpennar a hithau yn llenor a meddylwraig graff. Rwan mae'r

Pwyllgor Merched sy'n gyfrifol am gomisiynu'r cerfluniau yn gweithio i ddadorchuddio dau gerflun arall i goffáu Margaret Haig Thomas sef Arglwyddes Rhondda ac Elisabeth Andrews.

Nôl yn 1983 sefydlwyd Cystadleuaeth Canwr y Byd yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd. Dros y blynyddoedd mae ugeiniau o gantorion ifanc talentog o bedwar ban byd wedi dod i Gaerdydd i ddangos eu dawn o flaen cynulleidfaoedd gwerthfawrogol. Eleni, cynrychiolydd Cymru yn y gystadleuaeth oedd y soprano Jessica Robinson o Landysilio yn Sir Benfro ac oedd ei pherfformiad gwefreiddiol ar ddechrau'r wythnos o gystadlu wedi golygu ei bod wedi ennill lle yn y rownd derfynol ar ddiwedd yr wythnos a felly rhaid ei llongyfarch ar ei champ. Y baswr o'r Eidal enillodd y gystadleuaeth hon ond serennodd y pedair arall ar y noson gan gynnwys ein Jessica ni ac yn sicr mae dyfodol disglair i'r Gymraes hon o Sir Benfro.

Bydd y golofn hon yn ymddangos nesa yn rhifyn mis Medi o'r *Dinesydd* a felly yn y cyfamser gwyliau hapus i chi gyd a diolch o galon i chi am eich geiriau caredig ynglŷn â'r golofn.

## Hawl Iaith / Hawl Iechyd - Iestyn Gwyn Jones

*Dydd Llun 29 Mai ar Stondin Cymdeithas yr Iaith yn Eisteddfod yr Urdd, cynhaliwyd sgwrs ar y cyd â Meddwl.org am bwysigrwydd gwasanaethau iechyd a lles yn Gymraeg i blant a phobl ifanc Yn cymryd rhan yn y sesiwn oedd Non Parry, Iestyn Gwyn Jones, Dr Rhys Bevan Jones a Dr Llinos Roberts.*

*Isod mae Iestyn Gwyn Jones yn adlewyrchu ar y pwnc.*

Sai'n siŵr faint o'r golofn yma wnewch chi ddeall! Dwi ond yn trio rhoi'r hyn sydd yn fy mhen i lawr ar bapur. Ag mae hynny'n gallu bod yn ddigon anodd yn y lle cyntaf. Heb sôn am orfod ei roi ar lafar mewn iaith sydd efallai ddim yn ail-natur i chi.

"Heia, fi yw Iestyn a dwi'n byw gydag iselder."

Dyw hynny ddim yn cael ei ddweud yn gyhoeddus ddigon aml y dyddiau yma, sai'n credu.

Yn Eisteddfod yr Urdd eleni ro'n i'n rhan o'r sgwrs banel gafodd ei drefnu gan Meddwl.org a Chymdeithas yr Iaith yn trafod hawl gofal iechyd yn y Gymraeg. I fod yn onest, nes i ddim wir sylwi bod hyn yn gymaint o broblem nes i fi gymryd rhan yn y drafodaeth. Eto, mae'n dangos pa mor hawdd yw anghofio am bresenoldeb cyson a chynyddol iechyd meddwl o fewn cymdeithas.

Dwi ddim yn seicolegydd na'n doctor, dwi ond yn gallu siarad am fy mhrofiadau fy hun, ond dyna'r pwynt os unrhywbeth – dwi'n teimlo bod gan bobl ddiffyg hyder i siarad am sut mae nhw'n teimlo yn eu geiriau eu hun. Ag mae'r diffyg adnoddau sy'n cefnogi unigolion i wneud hynny yn bryder!

Fy mhrofiad cyntaf o siarad gyda therapydd oedd sesiynau therapi yn Saesneg. Fyswn i'n aml yn ffeindio fy hun yn oedi neu'n cwestiynu fy hyn wrth esbonio fy nheimladau gan nad o'n i'n gallu ffeindio'r geiriau cywir. Digon teg dweud mod i'n ffeindio hi'n anodd gwneud hyn yn y Gymraeg hefyd ond mae gorfod cyfieithu popeth er mwyn gallu cyfathrebu dy deimladau yn rhwystr ychwanegol. Mae'n ddigon anodd siarad am eich teimladau yn y lle cyntaf heb sôn am orfod cyfieithu rhyw fath o ddisgrifiad o'r hyn chi'n deimlo ar yr un pryd. Mi fyswn i'n poeni mod i'n defnyddio'r gair anghywir ag felly yn drysu fy hyn gan nad o'n i'n teimlo bod yr hyn o'n i'n ei ddweud yn cynrychioli sut o'n i'n teimlo bellach. Wedi ei golli a'i droi'n hyd yn oed fwy aneglur yn y broses o gyfieithu.




Mae hyn yn gallu bod yn niweidiol. Cael diagnosis anghywir neu beidio ffeindio gwir wraidd y broblem, a hynny i gyd oherwydd bod yr iaith rwyt ti'n ei ddefnyddio ddim mor naturiol a hawdd i'w defnyddio i drafod yn y lle cyntaf. Yn rwystr ychwanegol. Fyswn i'n dod o'r sesiynau therapi gyda hyd yn oed mwy o gwestiynau a phoenau nag oedd gen i yn y lle cyntaf. Mae'n codi pryder arna i bod cymaint o bobl yno sydd yn dioddef yn dawel gan fod dim digon o gymorth ar gael ym eu iaith eu hunain. Yn y Gymraeg!

Dwi'n teimlo weithiau bod pobol yn dueddol o beidio siarad achos nad ydyn nhw byth yn y sefyllfa cywir. Mewn sefyllfa cyfforddus. Sefyllfa sy'n rhoi hyder iddyn nhw drafod y pethau hyn. Dwi ddim yn dweud bod yr hyn sydd ar gael yn annigonol, dim ond nodi bod adnoddau a sesiynau therapi yn y Gymraeg yn gallu gwneud pethau'n haws. Mi wnaeth e i fi ta beth.

Mae angen i bobl deimlo'n gyfforddus a digon hyderus i siarad. Weithiau dim ond siarad sydd angen. Dwi'n sylweddoli bod hyn yn rhywbeth sydd yn cael ei ddweud yn aml – ond fel rhywun sydd wedi bod yn delio gydag iselder am bron i ddeng mlynedd bellach, rwy'n gwybod fod hyn yn wir.

Dwi'n berson ifanc, bron yn ugain mlwydd oed, ac os na faswn i wedi cael y gefnogaeth fues i'n hynod o lwcus i dderbyn yn y Gymraeg yn y pen draw fyswn i mwy na thebyg yn dal i ddioddef yn dawel ar ben fy hyn hyd heddiw. Neu i fod yn realistig – sai'n credu fyswn i dal yma o gwbl i fod yn onest.

Ac mae hyn yn GORFOD NEWID!

*Cofiwch fod cymorth a gwybodaeth ar gael ar wefan Meddwl.org*

# Colofn Natur



## *Trysorau cudd y ddinas*

**Gethin Jenkins-Jones**

Wrth feddwl am ein hoff rywogaethau ymysg trysorau byd natur, rydym efo'r tueddiad (fel cyhoedd) o gael ein hatynnu tuag at yr anifeiliaid mwyaf. Mae mamaliaid y tir, llawer o'n hadar, neu'r morfilod a chewri eraill y môr yn aml yn dod i'r meddwl. Mae pob un wrth gwrs yn haeddu'r fath sylw ond, yn anffodus i lawer ohonom, mae llawer ohonynt i'w ffeindio tu hwnt i'n hardaloedd lleol, neu hyd yn oed ein gwlad. Y newyddion da felly yw bod nifer o'n rhywogaeth lleiaf (ac yn aml hefyd ein rhai cyffredin) efo'r bywydau a'r ecoleg mwyaf anhygoel. Heddiw, diolch i ddigwyddiad diweddar, dwi wedi penderfynu sgwennu am fywydau grŵp o anifeiliaid arbennig iawn, sydd efo sawl rhywogaeth yn byw ar hyd Caerdydd.

Dychmygwch dreulio blwyddyn neu ddwy fel creadur bach dan ddŵr, mewn pwll gweddol fychan. Mae'n dawel, ac yn aml mae'n anodd gweld ymhellach na dau neu dri modfedd o'ch blaenau. Yn ystod yr haf mae eich byd yn hollol wyrdd diolch i'r miliynau o alga o'ch gwmpas, ac yn ystod dyddiau rhewllyd y gaeaf mae to cadarn o iâ yn ffurfio, yn eich cadw fel carcharor am y tro.



***Llun: Gethin Jenkins-Jomes***

Dros amser rydych yn tyfu, yn symud yn gyflymach, ac yn medru bwyta pethau mwy o faint, megis malwod, brogaod ifanc, a physgod bach. Yna, ar fore twym a llonydd ar gychwyn yr haf, rydych yn gadael y dŵr wrth symud fyny darn o gyrs. Yna, yn araf bach, rydych yn dringo allan o'ch hen groen ac yn trawsnewid i anifail hollol wahanol. Ar ôl treulio eich holl fywyd dan ddŵr, am y ddau neu dri wythnos nesaf byddwch â'r gallu i hedfan! Byddwch yn medru gwibio ym mhob cyfeiriad ac ar gyflymder hyd at 30 milltir yr awr, yn ogystal â mwyhau gwledd o liwiau newydd a llachar (yn cynnwys lliwiau uwch fioled!) oddi tanoch. Am y tro cyntaf, rydych yn medru teimlo gwres yr haul.

Dyma i chi fywyd gwas y neidr - grwp o anifeiliaid hynod diddorol sydd byth yn bell ohonom yn ystod misoedd twym y flwyddyn. O'r pum mil o rywogaethau ledled y byd, mae tua ugain ym Mhrydain, ac mae mwy na hanner o'r rhain yn byw yng Nghaerdydd, gan ychwanegu rhagor o liw a chyffro i natur y ddinas.

Tua dwy flynedd yn ôl cychwynnais astudio'r anifeiliaid yma, wedi fy ysbrydoli i ddysgu mwy am eu ffordd o fyw. Penderfynais i greu pwll yn yr ardd i'w denu, yn ogystal â'r llu o rywogaethau eraill mae pyllau yn enwog i'w cynnal. O bryd i'w gilydd ar hyd fy mhlentyndod gwelais ambell was y neidr yn ymweld â'r ardd ar ddiwrnodau poeth yr haf, a mi fydd yn rhoi llawer o foddhad gwybod y byddant o bosib yn dod o'n pwll ni.

I lawer o'r anifeiliaid yma, mi fydd yn cymryd dwy flynedd iddynt fod yn barod i adael y dŵr, ond hyd yn oed ar gychwyn yr haf yma nid oeddwn yn optimistaidd iawn am fy mhwll. Yn 2021 ac yn 2022 ni welais un yn ei archwilio unwaith. O bosib nid oedd y bioamrywiaeth eto wedi cyrraedd safon i'w cynnal. Syndod felly oedd gweld ecswfia (yr haen o groen maent yn dringo allan wedi gadael y dŵr) pedwar unigolyn yn ystod wythnos olaf mis Mehefin. Am wobr am yr holl chwys a grëwyd i'w palu!

Fel gwylio adar, mae'n help mawr cael pâr o finociwlars wrth eu gwylio, yn enwedig gan eu bod yn medru hedfan mor gyflym. Dros y blynyddoedd bellach mae gen i lawer iawn o atgofion o rai yn gwibio heibio cyn i mi ddarganfod eu rhywogaeth. Yma yng Nghaerdydd, mi fydd llawer ohonynt yn byw bywyd tebyg i'r un a ddisgrifir uchod - fel rheol maent yn fwyaf hoff o lynnoedd neu byllau bach. Dwi'n argymell felly mynd i lefydd fel Fferm y Fforest neu Chors Chrychudd ger Parc Tredelerch, ond gallwch weld oedolion bron unrhyw le, yn cynnwys ardaloedd gweddol bell o ddŵr. Neu gallwch balu pwll eich hunain, gan helpu poblogaethau y trysorau yma i ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.



***Llun: Gethin Jenkins-Jomes***

# Pobol y Rhigwm

Cystadleuaeth siomedig oedd hi'r tro hwn, ar y cyfan. Heb os, wnaeth hi ddim efelychu doniolwch a dyfeisgarwch cystadlaethau'r gorffennol pan oedd limrig yn dasg. O'r saith ymgais a ddaeth i law, dim ond tri, mewn gwirionedd, y gallwn fod wedi ystyried eu gwobrwyo mewn difri. Bu'n rhaid diystyru limrig *the Archdruid* yn syth, gan mai'r unig linell Gymraeg ynddo yw'r llinell osod! Tair llinell Saesneg ac un yn Ffrangeg yw'r gweddill! Cystadleuaeth Gymraeg mewn papur bro Cymraeg yw Pobol y Rhigwm ac fel yr Eisteddfod Genedlaethol ei hun, mae'n rhaid wrth reol iaith. Fel mae'n digwydd, ymgais *the Archdruid* oedd limrig mwya gwreiddiol a chlyfar y gystadleuaeth o ddigon, ond fedra i ddim gwobrwyo unrhyw ymgais sy, yn ei hanfod, mewn iaith arall. Gwallau sylfaenol sy'n peri i dri ymgeisydd arall syrthio o dan y trothwy. Er bod limrig *Dim Trueni* yn cloi ar nodyn digri, mae wedi defnyddio'r un brifodl drwy'r limrig cyfan. Fedra i ddim honni bod deddf gwlad yn erbyn hynny, ond y confensiwn gyda limrigau yw cael odl sy'n wahanol i'r brifodl yn llinellau 3 a 4. Fel arall, mae'n swnio'n ddiffygiol. Prinder odlau sy'n llorio *Wiliam* – dyw 'bydd' ar ddiwedd llinell 3 a 'fyd' ar ddiwedd llinell 4 ddim yn cydweddu. Mae *Hari*, wedyn, wedi defnyddio'r un gair ar ddiwedd llinellau 3 a 4! Eto, does dim gwaharddiad statudol yn erbyn hynny (hyd y gwn i!) ond mae'n tynnu'n arw oddi ar lif naturiol y limrig. Mae digon o ddychymyg a ffraethineb gan y tri ymgeisydd uchod i greu limrigau campus, dim ond iddyn nhw sicrhau bod eu cynhyrchion yn driw i ofynion y mesur.

Dyma air am y tri a gyrhaeddodd y brig. Mae limrigau *20,000* ac *O Bell* yn debyg iawn i'w gilydd yn yr ystyr eu bod yn ddarluniadau digon nodweddiadol o'r profiad Eisteddfodol. Heblaw am linell gynta herciog (a chystrawennol anghywir) *20,000*, mae'r ddau ymgeisydd wedi strwythuro limrigau llwyddiannus. Gorffen ar nodyn ysgafn yn hytrach na doniol wna'r rhain:

Nid mwy na nepell o Enlli
Yn Llŷn ac Eifionydd eleni
Bydd dawnsio a chanu
Pob math o farddoni
A digon i'r seintiau gyfodi!

*20,000*

**Enillydd Mehefin**
**Owen Rook, Yr Eglwys Newydd**

Bydd cloncan a chwerthin a chanu
Yn Llŷn ac Eifionydd eleni
Ond os daw y glaw
Neu haul, gwynt a baw
Siŵr, peidiwch anghofio eich broli!!

*O Bell*

Limrig *Byw Mewn Gobaith* sy'n cael y wobr gyntaf. Er nad yw hwn, hefyd, yn arbennig o wreiddiol, mae'n ddigon crafog i godi gwên. Ar y darlleniad cyntaf, ro'n i'n cymryd mai cyfeirio at y Steddfod wna'r limrig – dyw'r Maes ddim yn gwahodd rhywun i wisgo bicini, fel rheol! Sylwer, fodd bynnag, dyw *Byw Mewn Gobaith* ddim yn cyfeirio at y Steddfod o gwbwl! Mae 'na draethau yn Llŷn ac Eifionydd, wrth gwrs – crafog yn wir! Gan fy mod i'n sôn hyd syrffed am fydryddiaeth herciog, rhaid crybwyll hefyd bod *Byw Mewn* Gobaith wedi cyfri'r sillafau'n berffaith a bod ganddo limrig sy'n llifo'n ddiymdrech. At ei gilydd, mae hwn yn limrig cyflawn ac yn haeddu cael ei wobrwyo. Ynganer y ddau air ola fel un gair diacen, wrth gwrs (h.y. 'tŷ-ni').

Yn Llŷn ac Eifionydd eleni
Bydd cyfle i wisgo "bicini"
Ond os daw y glaw
Y mwd, llaid a baw
Hwrê, am gael cyrraedd ein tŷ ni!

*Byw Mewn Gobaith*

Mae llanw a thrai o ran safon yn nodweddu unrhyw gystadleuaeth farddol, am wn i a dyw Pobol y Rhigwm ddim yn eithriad i hynny. Am bob mis gwan, fel yr un hwn, ceir chwip o gystadleuaeth sy'n argyhoeddi'r beirniad i'r entrychion. *Byw mewn gobaith* wnaf innau, felly, y bydd rhigymwyr disglair y *Dinesydd* yn troi eu llaw at gynhyrchu mwy o gampweithiau ar ôl yr haf, ac ar ôl yr hwb awenyddol anochel a geir yn sgil ymweliad â Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst!

*Aron Pritchard*

## Cystadleuaeth mis Gorffennaf


**Englyn** neu **driban: Cynhaeaf**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Awst at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Llyfr newydd: Ffenestri Gobaith

Bydd cyfrol newydd o gerddi gan John Emyr ar gael am 11.30 y bore ar ddydd Iau 10 Awst ym Mhabell yr Eglwysi ar Faes y Brifwyl.

Dyma'r manylion:
*Ffenestri Gobaith*: Cerddi gan John Emyr, 111 tt., Cyhoeddiadau'r Gair, £6.99



## Nia Morais o Gaerdydd yw Bardd Plant Cymru 2023-2025




Ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri ar ddydd Iau 1 Mehefin, cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru a'i bartneriaid mai Nia Morais o Gaerdydd fydd yn camu i esgidiau Bardd Plant Cymru o fis Medi eleni.

Mae Nia'n awdur a dramodydd, ac mae ei gwaith yn aml yn canolbwyntio ar hunan ddelwedd, iechyd meddwl, a hud a lledrith. Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, graddiodd o Brifysgol Caerdydd gyda Gradd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol. Yn 2020, rhyddhaodd ei drama sain gyntaf, *Crafangau*, fel rhan o brosiect Theatr y Sherman, Calon Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae'n Awdur Preswyl gyda Theatr y Sherman ac mae ei drama lawn cyntaf, *Imrie*, cyd-gynhyrchiad gan Frân Wen a Theatr y Sherman, yn teithio Cymru dros haf 2023.

Mae Bardd Plant Cymru yn rôl genedlaethol sydd â'r bwriad o danio dychymyg ac ysbrydoli plant Cymru drwy farddoniaeth. Caiff y prosiect ei redeg gan Llenyddiaeth Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Sefydlwyd y cynllun yn 2000, ac ers hynny mae 17 bardd wedi ymgymryd â'r rôl. Caiff y rôl ei gwobrwyo pob dwy flynedd i fardd Cymraeg sydd yn angerddol dros sicrhau fod mwy o blant a phobl ifanc yn darganfod gwefr a grym llenyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Y bardd plant presennol yw Casi Wyn o Fangor.

Yn ôl Nia:

"*Rydw i mor falch i fod yn Fardd Plant Cymru a dw i methu aros i ddechrau. Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn i ddychwelyd i fyd barddoniaeth ar ôl tipyn o amser i ffwrdd, ac yn ddiolchgar iawn i allu rhannu fy amser gyda phobl ifanc Cymru*.

*"Ro'n i'n awyddus i gael y rôl oherwydd rydw i'n caru gweithio gyda phobl ifanc — mae'n foddhaol iawn a dwi'n cael lot o ysbrydoliaeth gan weld be sy'n diddori nhw. Rwy'n caru sgwennu barddoniaeth ac yn gobeithio gallu creu gwaith gwych gyda phobl ifanc Cymru!"*

Prif amcan Nia yw sicrhau fod rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc drafod ac ysgrifennu am bynciau sydd yn hollbwysig iddyn nhw fel cenhedlaeth, a sy'n brin mewn llenyddiaeth Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'n awyddus i wrando a chanfod pa themâu sydd yn tanio'r plant a pobl ifanc, a rhoi cyfle I blant fod yn greadigol gyda iaith ac arbrofi â geiriau a barddoniaeth. Cyhoeddwyd hefyd yng Ngŵyl y Gelli ar 2 Mehefin mai Alex Wharton o Bont-y-pŵl fydd y Children's Laureate Wales nesaf, chwaer-brosiect Saesneg Bardd Plant Cymru. Bydd y ddau yn dechrau ar y gwaith ym mis Medi eleni.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun Mehefin 19 croesawyd pawb i'r cyfarfod, ac fe anfonwyd ein cofion at ein llywydd Anrhydeddus Falmai Griffiths gan ein Cadeirydd, Shirley Williams. Dywedodd bod y Gymdeithas wedi anfon cyfraniadau at Elusen Ambiwlans Awyr Cymru ac Apel Gŵyl Gerdd Dant Cymru, Caerdydd.

Yna croesawodd ein Cadeirydd ein gwesteion am y noson sef Margaret Roberts ac Ifan Roberts.

Wrth gyflwyno, dywedodd ein Cadeirydd ei bod wedi mwynhau cyd weithio â Margaret fel athrawon ac wedi cael llawer iawn o hwyl, tra bod Ifan wedi dal nifer fawr o uchel swyddi ym myd darlledu, yn enwedig wrth Gomisiynu Rhaglenni Ysgafn.

"Siwrnau yn y Siarri" oedd teitl y noson ac aeth y ddau â ni yn ôl i'w tripiau Ysgol Sul a throeon trwstan y teithiau hynny mewn bysiau sydd yn edrych yn hynod hen ffasiwn erbyn hyn. Llwyddwyd drwy sgwrs a llun i gyfleu naws a hwyl tripiau i Fae Colwyn, Ffrainc, Ynys Môn a Pen y Fan ac atgofion melys y teithiau hynny.

Diolchwyd iddynt am ddwyn i gof atgofion eu hymweliadau personol eu hunain, ar ein rhan gan Bob Roberts, ac atgoffwyd pawb am ein cyfarfod anffurfiol nesaf yn Y Deri, Rhiwbeina am 11.00 am baned a sgwrs ar ddydd Llun, Gorffennaf y 17.

Ar ddiwedd y cyflwyniad mwynhawyd paned a chyfle i gymdeithasu i gwblhau'r noson.

***Bob Roberts, Margaret Roberts ac Ifan Roberts***



# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Fatla genowgh?*

### Gwilym Dafydd

Yn ddiweddar ymunais â grwp o'r enw "Trên Araf yn Dyfod" sydd yn rhan o Brifysgol y Trydydd Oes. Ted Richards sydd yn arwain ac yn gwneud gwaith ymchwil cyn i llu ohonom cymryd y trên at drefi bach diddorol yr ardal.

Uchafbwynt ein hymweliad â'r Fenni wythnos diwethaf oedd Priordy Santes Fair a'r goeden Jesse. Cafodd y priordy ei achub rhag ei ddinistrio oherwydd cysylltiad yr ardal â theulu Harri'r 7fed a'i ewyrth Jasper. Credir y cafodd y goeden ei cherfio ar ddiwedd y 14eg ganrif ac yn wreiddiol roedd yn 20 neu 30 troedfedd o daldra. Arwyddocâd o Jesse, tad y brenin Dafydd, yw y ffigur. Yn wreiddiol roedd cangen enfawr fel petai yn tyfu ac yn canghennu o'i ochr i ddangos achau Iesu Grist. Roedd yr holl beth wedi ei lliwio'n llachar ac rhaid iddo fod yn hynod o drawiadol.



Pan ddaeth Oliver Cromwell a'i filwyr i'r Fenni, torrodd y gangen i lawr, ac mae honiad iddo ddefnyddio'r pren i gynnu tân i'w filwyr.

Yn 1993 cafodd y goeden ei atgyweirio ac yn 2016 cyflwynwyd y Ffenest Jesse a rhoddwyd y goeden i orwedd o'i flaen.

Am ragor o wybodaeth am y cerflun hynod yma gweler History Today, The Tree of Jesse, erthygl gan Muriel Adams.

*Isobel Carter*

**Dw i'n dysgu Cernyweg!**

Fatla genowgh? Sut dych chi? Mae hi wedi bod yn amser hir ers i mi ysgrifennu rhywbeth ar gyfer y *Dinesydd* ac mae llawer wedi newid. Dw i wedi gadael Cymru a symud yn ôl i Aberplym (Plymouth) yn Lloegr. Ro'n i'n gwybod y baswn i'n colli'r Gymraeg – dw i'n nabod un person arall yn Aberplym sy'n siarad Cymraeg ond heb lwyddo i gwrdd â fe yn aml. Dw i'n dal i ddarllen nofelau a gwefannau Cymraeg, gwylio S4C a gwrando ar Radio Cymru ond dydy hi ddim yr un peth a sgwrsio yn Gymraeg!

Oherwydd hyn penderfynais i roi cynnig ar ddysgu Cernyweg – wedi'r cyfan mae Aberplym reit ar y ffin rhwng Cernyw a Lloegr ac roedd gen i hen ffrind yn Aberplym o Gernyw oedd yn rhugl mewn Cernyweg. Dechreuais i gan ddefnyddio cwpl o lyfrau a geiriadur Cernyweg a chwpl o adnoddau ar-lein (dolennau isod). Trefnais i gwrdd â'm ffrind a daeth rhywun arall sy'n dysgu Cernyweg. Yn araf tyfodd pethau ac mae grŵp bach ohonon ni nawr sy'n cwrdd bob prynhawn Gwener yn Aberplym – fel arfer 3-6 ohonon ni ond mae'r diddordeb yn cynyddu.

Mae llawer o bethau yn gyffredin rhwng Cymraeg a Chernyweg. Mae rhai geiriau yn union yr un peth – dewis, mis, gwag, ac mae rhai yn debyg ond wedi'u sillafu yn wahanol – colli/kelli, llyncu/lenki, bod/bos, tad/tas, pedwar/peswar, afon/avon, croes/krows ac mae gennyn ni 'k' yn y Gernyweg! Mae yna dreigladau – llawer mwy mewn Cernyweg! Mae rhai ohonyn nhw â'r rheolau yn union fel yn y Gymraeg ond mae llawer ohonyn nhw â'r rheolau yn hollol wahanol! Mae cryn dipyn o'r gramadeg yn hollol wahanol ac mae cryn nifer o wahaniaethau yn y ffordd dych chi'n ynganu rhai o'r llythrennau e.e. mae 'll' yn y Gernyweg yn swnio fel 'l', ac mae 'ch' yn swnio fel 'church' yn Saesneg.

Weithiau dw i'n dechrau brawddeg yn y Gernyweg ac yn troi i'r Gymraeg hanner ffordd drwyddi!

Y peth anhawsaf wrth ddysgu Cernyweg yw diffyg cyfleoedd i'w defnyddio o'i chymharu â dysgu Cymraeg. Hyd yn oed dros y ffin yng Nghernyw does dim cymuned byw sy'n defnyddio'r iaith fel iaith bob dydd. Dyna pam mae grwpiau sgwrsio a digwyddiadau Cernyweg mor bwysig. Ond gyda phroffil yr iaith yn codi a mwy a mwy o blant yn ei dysgu yn yr ysgol gobeithio y bydd pethau yn parhau i wella yn y dyfodol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dysgu ychydig o Gernyweg yma dyma gwpl o adnoddau am ddim i'ch helpu.

Kesva: https://www.kesva.org/kdl/kynsa-gradh-i-first-grade
Go Cornish: https://gocornish.org/
Say Something In: https://en.saysomethingin.com/cornish/level1/intro

***Matt Spry***

Diolch yn fawr Matt Spry am anfon gair o Aberplym! Cawson nifer o gyfraniadau yma gan Matt nôl yn 2018 wedi iddo ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn. Rhoddodd rhaglen *Dechrau Canu Dechrau Canmol* sylw i Gernyw a'r Gernyweg yn ddiweddar a diolch i Matt am ei gyfraniad yno ar nos Sul, 25 Mehefin, 7.15-8.00. Os cewch gyfle yna ewch nôl i ailwrando ar Matt a'i gyfraniad mewn dwy iaith tua 7.45.

Fel soniwyd yn y rhifyn diwethaf bydd dathliad *Y Dinesydd* yn 50 oed ym Mharc Bute, Gŵyl Tafwyl ar fore Sul, 16 Gorffennaf rhwng 11.30-12.30. Wedi ychydig o siarad a chyflwyno a pheth cerddoriaeth bydd teisen 50 a diodydd i bawb a chyfle i gymdeithasu. Afraid dweud bydd croeso arbennig i siaradwyr Cymraeg newydd sydd wedi cyfrannu a chefnogi'r golofn hon ers nifer o flynyddoedd!

# Newyddion da o Ben-y-bont ar Ogwr

Llongyfarchiadau mawr i holl staff a chymuned **Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd** a dderbyniodd newyddion arbennig yn ddiweddar. Yr ysgol yw'r ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf i dderbyn dim argymhellion ffurfiol yn dilyn arolygiad eithriadol gan Estyn sydd wedi arwain at ofyn i'r ysgol gynhyrchu dwy astudiaeth achos o arfer effeithiol i'w rhannu ag eraill yn y sector. Cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Mawrth 2023 ac mae'r ysgol bellach yn ymuno â grŵp bach o ysgolion yng Nghymru yn unig i fod wedi cyflawni adroddiad o'r ansawdd hwn.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ansawdd yr addysgu sydd yn gyson uchel ar draws yr ysgol tra hefyd yn canmol y berthynas waith agos a chefnogol rhwng disgyblion ac athrawon. Yn ogystal, mae'n canmol eu system rheoli perfformio staff, sef y 'Cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus' a'r ffordd mae'n datblygu ymdeimlad o Gymreictod a hunaniaeth Gymreig ymhlith ei disgyblion mewn ffordd gadarnhaol a chynhwysol ac yn gosod dyheadau uchel ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion. Fel yr unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'i hysgolion cynradd clwstwr, Menter Bro Ogwr a'r Urdd. Nodwyd fod y disgyblion wir yn mwynhau dod i'r ysgol ar y cyfan ac mae lefelau presenoldeb yn nodedig o uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Fel ysgol, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd wastad wedi cydnabod pwysigrwydd cydweithio ag eraill er budd ei dysgwyr. Gydag ethos gwreiddiol sy'n canolbwyntio ar hunan fyfyrio a gwerthuso, mae'r ysgol wedi bod yn allweddol wrth sefydlu ac arwain cyfleoedd dysgu proffesiynol amrywiol gan gynnwys Cyfleoedd+ (partneriaethau ysgol i ysgol ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr a RhCT) a Gyda'n Gilydd (ysgol i ysgol yn gweithio i ddarparu rhaglen wedi'i theilwra o ddysgu proffesiynol yn y Gymraeg ar draws CSCJES ac EAS). O ganlyniad, roedd proses arolygu newydd Estyn yn cyd-fynd â sut mae'r ysgol yn gwerthuso eu gwaith a'u cynlluniau ar gyfer gwella. Roedd defnyddio ystod eang o wybodaeth i fesur effaith y ddarpariaeth ar lesiant a chynnydd disgyblion yn cael ei ystyried yn gryfder nodedig.

Enwyd **Meurig Jones**, pennaeth yr ysgol, yn 'Bennaeth y Flwyddyn' yng Ngwobrau Addysgu Cymraeg diweddaraf a derbyniodd y wobr arian yng Ngwobrau Addysgu Pearson UK. Disgrifiodd arolygwyr Meurig fel "arweinydd ysbrydoledig a gwylaidd sy'n uchel ei barch ymhlith y staff a chymuned ehangach yr ysgol."

## Y DIGWYDDIADUR

### Gorffennaf

**Llun, 10 Gorffennaf (10.00 - 12.00)**
'Parti yn y Parc' gyda Siani Sionc, Parc y Rhath (ger y parc chwarae mawr)10.00 i 12.00. Am ddim. Rhan o raglen Tafwyl 2023.

**Mercher, 12 Gorffennaf (11.00 am)**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd - Pwyllgor Trefnu Rhaglen 2023–24
Capel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ
Manylion pellach: Beth Killen, Ysgrifennydd (029-2056-6508)

**Mercher, 12 Gorffennaf**
Cyngerdd Haf er budd Apêl Daeargryn Twrci a Syria.
Yng nghwmni Côr Canna, Parisa Fouladi a Cynan Llwyd (arweinydd Tear Fund Cymru)
Eglwys Fethodistaidd yr Eglwys Newydd (dan nawdd Eglwys Ebeneser)
Tocynnau: £10 i oedolion; £5 i blant o Siop y Felin, Yr Eglwys Newydd.

**Iau, 13 Gorffennaf (7.00 pm)**
Seremoni Llyfr y Flwyddyn
Y Tramshed, Trelluest
Tocynnau: £5 o wefan Llenyddiaeth Cymru

**Iau, 13 Gorffennaf (8.30 pm)**
Tafwyl a Glamorgan Brewing Co. yn cyflwyno Dragwyl Cabaret, Canolfan Mileniwm Cymru
Tocynnau: £15
Rhagor o fanylion ar wefan Ganolfan Mileniwm Cymru

**Gwener 14 Gorffennaf (7.00 pm)**
Gig: Yws Gwynedd Clwb Ifor Bach
Tocynnau: £11 o wefan y clwb

**Gwener, 14 Gorffennaf (7.30 pm)**
Cyngerdd Bronwen Lewis ac Alis Glyn,Neuadd St Catherine's, Pontcanna, am 7.30pm
Tocynnau wedi gwerthu allan eisoes.

**Sadwrn–Sul, 15 ac 16 Gorffennaf**
Tafwyl Parc Bute
Manylion pellach: https://tafwyl.org/

**Sul, 16 Gorffennaf (11.30 – 12.30)**
Dathliad pen-blwydd *Y Dinesydd* yn 50 mlwydd oed
Pabell y Llais, Tafwyl
Adloniant gan Delwyn Siôn.

**Llun, 17 Gorffennaf (11.00 am)**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina
Y Deri, Rhiwbeina
Cyfle am baned neu ddiod a sgwrs.
Manylion Pellach: Dilwyn Jones, Ysgrifennydd (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Sadwrn, 22 Gorffennaf (12.30 pm)**
Dathlu 200: datganiad organ unigryw Tabernacl ar yr Ais

**Gwener, 28 Gorffennaf (7.00 pm)**
Gig: Hyll Clwb Ifor Bach
Tocynnau: £10 o wefan y clwb

**Sadwrn, 29 Gorffennaf (6.30 pm)**
Mewn Cymeriad yn cyflwyno 'Owain Glyndŵr' Cwrt Insole, Llandaf,
Manylion pellach ar wefan Mewn Cymeriad. Y Bont-faen
Pris: £3.50.

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James**
**Manylion tud.2**

## Diolch yn fawr

**Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr iawn i Ferched y Wawr Bro Radur am eu rhodd hael tuag at gynnal ein papur bro.**

# Bwytai Merch y Ddinas



## The Touring Club, Penarth

**Lowri Haf Cooke**

Un o bleserau mawr y penwythnos i mi yw ymgolli yn y papurau newydd. Mae'n gyfle i ddadansoddi rhai o straeon mawr yr wythnos, a hel syniadau am lyfrau, bwytai ac anturiaethau. Ac er mai Llundain sy'n tueddu i hawlio'r sylw i gyd, mae'n gyffrous i weld y Cymry'n creu argraff ar y byd. Tua diwedd mis Mehefin fe wnes i nodyn o fwyty newydd Tomos Parry o Sir Fôn, sef Mountain ar Beak Street, Soho. Fel ei fwyty Michelin yn Shoreditch, Brat, mae bwydlen ei fenter newydd wedi'i ysbrydoli gan Gymru a Gwlad y Basg.

Fel arfer mae'r fath wybodaeth yn denu dŵr i'm dannedd, ond hefyd elfen fawr o rwystredigaeth! Wedi'r cyfan, mae Llundain 150 milltir i ffwrdd o Gaerdydd. Ond y bore Sadwrn hwnnw ro'n i'n llawn cynnwrf ar gyfer bar a bwyty newydd sbon danlli ym mhatshyn *Y Dinesydd*. Y rheswm am hynny? Enw mawr arall o blith y Cymry yn Llundain, sef y cogydd Cymraeg Bryn Williams. Ar ddechrau mis Mehefin, agorodd y cogydd o Ddinbych far a bwyty yn llawer nes at brifddinas Cymru. Ond cyn rhannu fy mhrofiad o'r Touring Club, Penarth, dyma wibdaith bach gwyllt o'i hanes...



Yn gogydd ar ei brifiant, hyfforddodd Bryn Williams yng Ngholeg Llandrillo, a graddiodd o fwyty Melin Brwcws, Dinbych, i Cafe Niçoise, Bae Colwyn. Ar ôl dangos addewid mawr yno, fe'i danfonwyd i Lundain. Hyfforddodd ymhellach yng nghegin y Criterion dan adain Marco Pierre White, a'r brodyr Roux chwedlonol yn Le Gavroche a Le Negresco yn Nice, De Ffrainc. Daeth yn gogydd-berchennog yn 2008 ar fwyty Odette's ym Mryn y Briallu a thyrrodd y Cymry yno i'w gefnogi! Yn hwyrach, agorodd ail fwyty yn Somerset House yn Llundain, ac yn 2013, agorodd ei leoliad cyntaf yng Nghymru, Bryn Williams Porth Eirias ar draeth Bae Colwyn.

Gadewais yn llawn llawenydd ar bob ymweliad â bwyty Porth Eirias, ond hefyd yn dyheu am fwyty Bryn Williams yng Nghaerdydd! Mae e'n gogydd arbennig sy'n cyfuno arddull goginio clasurol Ffrengig a chynnyrch gorau Cymru, a Dyffryn Clwyd. Ond yr hyn sy'n fwyaf atyniadol am fwyty Porth Eirias yw'r cyfuniad o chwaeth eithriadol a chroeso naturiol Gymreig. Nid tŷ ar y traeth heb seiliau mohono, ond bwyty glan-môr â'i draed yn sownd ar y ddaear.

Os na fuoch chi yn ei fwytai o gwbl cyn hyn, byddwch yn siŵr o fod wedi gweld ei gyfres deledu Cegin Bryn. Dwi'n gwneud defnydd cyson o'i ryseitiau gwych yn llyfrau *Bryn's Kitchen*, *For the Love of Veg* a *Tir a Môr*. Ac yn Rhagfyr 2020, agorodd fwyty Bryn Williams yng ngwesty The Cambrian yn Adelboden, y Swisdir (dychmygwch sgïo lawr am damaid o fwyd Bryn yn yr Alpau!). Ar ben popeth, fe'i urddwyd i Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, 2013. Yn syml, mae e'n arwr Cymreig a Chymraeg, ac yn enw rhyngwladol erbyn hyn.

Ymlaen felly at y bar-bwyty newydd ym Mhenarth! Un o bartneriaid Bryn Williams yn y fenter newydd hon yw'r dylunydd Dylan Griffith o Gaerdydd, sy'n byw ac yn gweithio yn Amsterdam. Yn wir, bu anturiaethau rhyngwladol y ddau yn amlwg yn ddylanwad mawr ar weledigaeth y Touring Club. Mae'r enw ei hun yn deyrnged i'r Touring Club Hotel yn Nhrelew, Patagonia – un o guddfannau olaf Butch Cassidy a'r Sundance Kid, yn ôl y sôn. Cydweithiwyd â chynllunwyr dodrefn o North Carolina i Amsterdam, a chynllunydd o'r enw The Canton Cutler, a saernïodd gyllell goginio finiog y 'Butch Bach'.

Mae'r gofod ei hun yn wledd i'r llygaid i bawb sy'n gwirioni ar gynllunio. Mae'n gynnil a chyfoes, ond hefyd yn gynnes – waliau gwynion, teils gleision, a phren cadarn. Ar b'nawn chwilboeth ar ddiwedd Mehefin, roedd ffenestri'r bar yn gwbl agored; roedd y Gymraeg i glywed yn glir lawr Heol Stanwell, ynghyd â chlincian gwydrau gwin rosé. Tybed oes na sain mwy croesawgar na hynny?! Ces i gip fyny'r grisiau, ble roedd *banquettes* cyfforddus lliw caramel ysgafn, gan wneud nodyn ar gyfer y dyfodol. Ond ar gyfer fy ymweliad cyntaf bachais ddau stôl ger bwrdd y ffenest – y lleoliad perffaith i gael bus-nes ar y byd a'r betws a chlonc gyda ffrind bore oes.

Ces i gip ar y fwydlen gynnil a holi am y seigiau mwyaf poblogaidd. Roedden nhw i gyd at fy nant, ac yn flasus dros ben, gan gychwyn a blas ffrwythog a

myglyd y Devils on Horseback (£5). Roedd y tameidiau prŵns mewn bacwn yn berffaith gyda'r gwin rhosiliw (£9) a glasied chwerwfelys o Aperol Sour (£8.50). Wrth i ni sgwrsio am rai oriau, cyrhaeddodd y platiau bob yn dipyn – cytlets cig oen gyda lemwn a halen (£17), a chranc ar dost surdoes (£12). Ardderchog. I orffen, tamaid o gaws a bara brith gyda siytni Bryn ei hun, blas gellyg (£8). Yn wir, mae'r catwad hwnnw ar werth ar silffoedd y bar, ynghyd â'i jam mafon a leim, mêl, sôs coch, dressin salad, a'i geuled lemwn anfarwol. Dyna'r ceuled lemwn gorau erioed – dwi wedi'i greu ganwaith o'i lyfr Bryn's Kitchen.




Mae na lawer o seigiau eraill y bydda i am eu blasu tro nesa – mae'r Caws Pob hefyd yn boblogaidd mae'n debyg, ynghyd â chigach Trealy Farm, Sir Fynwy. A bydd yn rhaid blasu'r panacotta blas deilen llawryf gyda mefus cyn diwedd yr haf. Roedd yn leoliad cŵl a braf yn yr heulwen tanbaid, er, mae na le tân addawol yr olwg ar gyfer y glaw a'r gaeaf. Awgrym y perchnogion yw mai lle i 'alw fewn' yw'r Touring Club, i 'bigo bwyd' a 'gwlychu pig', fel yn achos bariau dinasoedd Gwlad y Basg a Chaerdydd. Ac wedi'r cyfan, mae Penarth yn ffodus iawn o fariau dymunol eraill, fel Griff's Deli a Bar 44 gerllaw.

Os oes gen i feirniadaeth, mae'r stolion pren anhygoel o brydferth bach yn galed ar y bochau tin ar ôl tipyn. Clywais un ferch yn dweud am y décor 'it's very masculine' – a dwi'n siŵr y byddai Butch a Sundance wrth eu boddau yno, yn hitio'r Whisky Sours, ac am estyn yn syth am un o'r bwyelli iâ oddi ar y wal! Ond o ddifri, o'm rhan i, ro'n i wrth fy modd. Mae'r fath uchelgais ym Mro Morgannwg yn haeddu clod. A bydd yn siŵr o ddenu diddordeb papurau newydd Llundain, a llewyrch pellach i'n dinas a'n bro. O fryniau Dyffryn Clwyd i ddinas fawr Llundain, Bae Colwyn, Alpau'r Swisdir, a nawr Bro Morgannwg. Ffeind a braf oedd Bryn am drefnu antur ym Mhenarth!

**Touring Club, 4 Adeiladau Washington, Heol Stanwell, Penarth CF64 2AA**

*Bwytai Cymru* gan Lowri Haf Cooke, Gwasg Gomer (£9.99)

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn dathlu 150 mlwydd oed yr adeilad presennol

Dyma daith frysiog i chwi trwy'n hanes yng nghwmni gweinidogion Bethlehem ers y cychwyn…

…fe wŷr rhai ohonoch fod y Bethlehem gwreiddiol yn dal i sefyll ar y safle lle 'i codwyd gyntaf (ar waelod Rhiw'r Ceiliog [School Lane]) yn 1832.

Cyn hynny roedd amryw o drigolion y cylch yn aelodau yng Nghapel Taihirion, ger Rhydlafar, ond gan eu bod yn byw yn agos at eu gwaith – llawer ohonynt ger "*gwaith haiarn Pentyrch*" – "'*roeddent yn cadw cyfarfodydd gweddïo, Ysgolion Sabbothol, cyfeillachau crefyddol, a phregethu achlysurol, mewn annedd-dai er y flwyddyn 1820, os nad cyn hynny.*"

"*Ar y trydydd a'r pedwerydd o Fawrth 1832 agorwyd addoldy newydd perthynol i'r Annibynwyr a elwir Bethlehem wrth 'Forge' Pentyrch…y mae'r Bethlehem hwn yn gangen o'r Taihirion ac i fod dan ofal gweinidogaethol D(avid) Jones*".

"*Ymhen ychydig gyda blwyddyn wedi agoriad y capel, darfu Mr David Jones ei gysylltiad a'r ddau le…"*

*Dilynwyd ef yn y Taihirion a Bethlehem gan Mr John Lewis yn nechrau y flwyddyn 1834, a bu yma hyd ddechrau 1837.*

*Yn niwedd yr un flwyddyn, urddwyd Mr David Davies i fod yn weinidog yn y Taihirion ac yma, ond darfu ei gysylltiad ef a'r ddau le yn gynnar yn y flwyddyn 1838.*

*Yn nechrau 1840, urddwyd Mr Lemuel Smith i weinidogaethu yn y Taihirion a Bethlehem. Wedi dwy flynedd o lafur llwyddiannus bu farw y gweinidog ifanc a gobeithiol hwn.*

*Wedi marwolaeth Mr Smith rhoddodd eglwys Bethlehem ei hun dan ofal Mr John Jones, mewn cysylltiad a'r Rhydri."*

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r Bethlehem presennol yn 1872, ond yn drist iawn ni chafodd Mr John Jones weld cwblhau'r adeilad - *"bu farw wedi hir nychdod ar Fehefin 14, 1872"*



# Merched y Wawr

*Ym mis Mehefin, cafodd Merched y Wawr Bro Radur a Merched y Wawr Cangen Caerdydd gyfle i ymweld â stiwdio Anthony Evans yn Oriel Canfas, Treganna. Dyma bytiau gan y ddwy gangen.*

## Merched y Wawr Bro Radur

Ers pan oedd e'n ddeg oed yn fachgen bach yn Cross Hands roedd Anthony Evans eisiau bod yn artist. Wedi blynyddoedd fel athro celf sefydlodd ei hun fel artist llawn amser ym 1990. Dilynodd ddau gyngor pwysig: cael stiwdio a chyfrifydd i sicrhau seiliau busnes cadarn. Daeth yn aelod o grŵp o artistiaid a sefydlodd gwmni Arlunwyr yr Hen Lyfrgell ac Oriel Canfas yn 44a Stryd Morgannwg yn Nhreganna. Pnawn Mercher, Mehefin 7fed cafodd dau grŵp (o 10 aelod) Merched y Wawr Bro Radur gyfle i fynychu stiwdio Anthony Evans yn Nhreganna, lle iddo weithio, addysgu ac arddangos gyda saith artist arall yn yr un adeilad.

Gyda'i frwdfrydedd byrlymus cawsom gip ar ei ddawn yn trosglwyddo, trwy ystod o gyfryngau, ei emosiynau, breuddwydion, atgofion a thirwedd Cymru i beintiadau, printiadau, lluniadau a gwaith 3D. Fel tirlunydd mae'n hoff iawn o weithio ar acrylig ac mae ei waith yn rhan o gasgliadau cyhoeddus yng Nghymru, yr Unol Daleithiau ac Awstralia. Dywedodd fod gan artist gamera yn ei ben ac mae'n trosglwyddo ei luniau trwy *drawing*. Fydd y lluniau byth yn iawn heb y *drawing*. Fel darlunydd mae ei ddelweddau wedi cyfoethogi cyfrolau a chloriau nifer o lenorion a beirdd Cymreig. Yng nghyfrol farddoniaeth 'Dan Ddylanwad' Iwan Llwyd, er enghraifft, mae printiadau i gyd-fynd gyda phob cerdd.

Mae Anthony Evans yn hoff iawn o weithio gyda beirdd a diddorol oedd clywed cefndir y broses wrth iddo fynd ati i bortreadu Myrddin ap Dafydd yn y gyfres boblogaidd 'Cymry ar Gynfas' S4C. Ar ôl derbyn yr englyn gan Rhys Powys ar gyfer y gwaith celf i ddathlu 150 mlynedd Capel Bethlehem Gwaelod y Garth roedd yn gweld y llun oedd am ei ddylunio yn ei feddwl. Roedden ni'n lwcus iawn ddechrau Mehefin i gael rhagolwg o'r darlun hyfryd hwn. Cedwir y printiad du a gwyn fel meistr. Pedward eg fydd ar gael ac fel mae pob archeb yn cyrraedd bydd yr artist yn paentio'r lliw i fewn. Golyga hyn bydd pob un ychydig yn wahanol!

Mae Anthony Evans yn gweithio ar tua deg llun ar y tro fel arfer! Braint i ni oedd cael treulio amser yng nghwmni artist mor ddawnus a phrysur.

Meri Griffiths



## Merched y Wawr Cangen Caerdydd

Ar 20 Mehefin, aeth ein 'trip' blynyddol â ni ar draws y ddinas i Dreganna i ymweld ag Oriel Canfas. Cawsom brynhawn hynod ddiddorol yng nghwmni cyfeillgar yr artist, Anthony Evans. Mae Anthony yn fab i deulu glofaol o Cross Hands ond ers yn blentyn roedd ei fryd ar 'sgetsho'. Astudiodd Gelf i lefel gradd ac yna, er ei fod yn dyheu am fod yn artist, aeth i Goleg y Drindod a hyfforddi fel athro. Bu'n Bennaeth Celf yn Ysgol Glantaf am y rhan helaeth o'i yrfa, gan weithio yno am 12 mlynedd ers i'r ysgol agor yn 1978.

Yn 1990, gwnaeth y penderfyniad tyngedfennol i adael byd addysg a'i lansio'i hunan fel artist. Sefydlodd gwmni cydweithredol o artistiaid, Old Library Artists Ltd, yn yr Hen Lyfrgell yng nghanol Caerdydd. Pan fu'n rhaid iddynt adael y llyfrgell yn 1998, prynont yr adeilad presennol yn Nhreganna a'i enwi'n Oriel Canfas. Mae'r oriel yn cynnwys 8 stiwdio, oriel a man addysg ac mae'r artistiaid sydd â stiwdios yno yn cael mynd a dod fel y mynnont.

Cawsom ein gwahodd i stiwdio Anthony ar y llawr cyntaf ac yng nghanol ei waith a'i ddeunyddiau, aeth ati i sôn am ei yrfa fel artist, esbonio'i dechnegau wrth beintio a disgrifio'r gwahanol gyfryngau mae'n eu defnyddio. I gychwyn, byddai'n darlunio llyfrau plant ac yn creu deunyddiau ar gyfer y byd addysg, y theatr ac ati. Ond yna dechreuodd beintio ag acryligion ar gynfas. Yn y broses o greu darlun, mae bob amser yn dilyn cyfres o gamau. Pwysleisiodd mai'r lluniadu yw'r cam cyntaf hanfodol ar gyfer pob darlun. Cawsom gipolwg ar rai o'i lyfrau brasluniau niferus. Cyn dechrau peintio mae'n gorchuddio'r cynfas a haen o blastr. Mae hyn yn allweddol gan fod y plastr yn rhoi gwead i'r darlun. Y cam nesaf yw peintio'r braslun yn y lliwiau sylfaenol ac yna bydd Anthony yn peintio dros y llun â haen denau o las er mwyn uniaethu'r tonau. Wedyn, bydd yn astudio'r golau a'r cysgod yn y llun cyn mynd yn ei flaen i ychwanegu lliwiau'n raddol nes bydd yn fodlon ar y gwaith gorffenedig. Weithiau bydd yn amrywio'i dechneg drwy gynnwys geiriau yn ei ddarluniau neu ddefnyddio blociau o luniau bach ochr yn ochr.

Agwedd arall ar waith Anthony yw argraffu – dangosodd i ni sut mae'n gwneud printiau leino. Mae'r rhain yn cyfuno geiriau a

lluniau ac yn aml fe'u seilir ar gerddi. Weithiau mae'n cael ei gomisiynu i goffáu rhyw achlysur neu berson drwy greu print. Cafodd ei wahodd i bortreadu'r bardd Myrddin ap Dafydd yn y gyfres Cymry ar Gynfas. Mae hefyd yn cynhyrchu argraffiadau cyfyngedig o hyd at 40 o brintiau wedi'u rhifo a'u harwyddo. Yn amlwg, mae ei benderfyniad i ymsefydlu fel artist wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae'n rhannu ei amser rhwng y gwaith comisiwn a pheintio lluniau yn ôl ei fryd.

Treuliom brynhawn difyr iawn yn cael cipolwg ar fyd a gwaith artist o fri a chrwydro o gwmpas y oriel cyn mynd i'r Chapter gerllaw am baned – ffordd wych o gloi'r rhaglen am eleni.

Joy Davies



---




## Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd

***Dydd Sadwrn 11 Tachwedd 2023***

**Rhestr Testunau**

Mae'r Rhestr Testunau'n fyw ar Wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, a bydd copïau print yn cael eu hargraffu cyn bo hir, felly cadwch eich llygaid yn agored. Os hoffech chi weld y rhestr testunau, mae ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru: Cymdeithas Cerdd Dant Cymru - Gŵyl Cerdd Dant (cerdd-dant.org). Rydym yn edrych ymlaen at y cythraul canu, y cystadlu a'r hwyl fydd i'w gael.

Bydd rhagor o fanylion y ddau ddigwyddiad ar gael yn rhifyn nesa'r *Dinesydd*.

**Nwyddau**

Rydym bellach wrthi'n dylunio nwyddau i godi arian a nodi dyfodiad yr Ŵyl i Gaerdydd, ac rydym yn falch o lansio'r '*Jin Cerdd Dant'*, sef jin blas leim a teim, sy'n eithriadol o flasus. Diolch yn fawr i Mark Flanagan (Jin Treganna) am weithio gyda ni ar hwn, ac i Aron Evans am ddylunio'r label. Bydd rhagor o nwyddau'n ymddangos cyn bo hir.

**Cyfrannu**

Os hoffech chi roi cyfraniad at yr Ŵyl ac yn methu dod i un o'r digwyddiadau, mae'n hawdd iawn cyfrannu ar-lein drwy ddilyn y linc i'r dudalen JustGiving yr Ŵyl Gerdd Dant.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, neu os hoffech chi gynnig syniad, cysylltwch ar: GCDCaerdydd2023@gmail.com.

**Digwyddiadau**

Diolch yn fawr iawn i'r holl gefnogwyr sydd wedi bod yn cynnal digwyddiadau i godi arian i'r Ŵyl. Rydym wir yn gwerthfawrogi'r ymdrech gan fod y digwyddiadau'n codi ymwybyddiaeth o'r Ŵyl yn ogystal â chodi arian. Ar ben hynny, mae hefyd yn gyfle i gymdeithasu a thrafod ...

... fel yn y Barbeciw yn Canna Deli ar 9 Mehefin – noson braf iawn. Diolch i Tom am ei gefnogaeth.

**Nodyn i'r dyddiadur:**


Noson yng Nghwmni Steffan Rhys a Mared ar 7 Hydref yn "Y Dosbarth".

Cynhelir Sioe Ffasiwn ar 27 Hydref.



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 10)

Manylwyd ryw gymaint yn y rhifyn diwethaf ar weithgareddau Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg, corff a ffurfiwyd yn 1913 ac a ddaeth i ben yn 1941. Er bod yr Undeb a'i gyfraniad wedi mynd yn angof bron erbyn heddiw, yn ei ddydd roedd yn un o'r cyrff pwysicaf yn y frwydr dros y Gymraeg a Chymreictod.

Roedd i'r Barri le canolog yn hanes yr Undeb, nid lleiaf am mai athro ysgol yn y dref honno, D. Arthen Evans, oedd ei ysgrifennydd cyffredinol o'r dechrau hyd at ei farw yn 1936. Yn Ionawr 1917, gallai golygydd *Y Brython* ddweud 'na chafodd yr un mudiad ysgrifennydd mwy selog a llafurus' nag a gafodd Undeb y Cymdeithasau Cymraeg ym mherson Arthen Evans; ac yn Rhagfyr yr un flwyddyn, nodwyd ym mhapur newydd *Y Darian* fod llawer o lwyddiant yr Undeb i'w briodoli yn benodol iddo ef: 'Gŵr penderfynol a thrwyadl yn ei waith ydyw Arthen, a dry bob carreg cyn y metha ddwyn barn i fuddugoliaeth. Mae'r Undeb sydd wedi arwain i sefydliad cynifer o Gymdeithasau Cymraeg yn deyrnged i'w wealediad clir a'i frwdfrydedd o blaid ein hiaith.'

Wrth gloi ein herthygl ddiwethaf, cyfeiriwyd at y ffaith mai un o gyfraniadau pwysicaf yr Undeb oedd cynnal Ysgol Wyliau Gymraeg am bythefnos bob mis Awst o 1918 hyd 1933. Crybwyllwyd eisoes yn y gyfres hon (yn rhifyn Mehefin 2022) fod Arthen Evans wedi cael budd mawr ar ddechrau ei yrfa fel athro o fynychu ysgolion haf Cymraeg a drefnwyd gan David James ('Defynnog'; 1865–1928), er mwyn hyfforddi athrawon yn nulliau dysgu'r Gymraeg a'u trwytho yng ngramadeg yr iaith, ei llenyddiaeth a hanes Cymru. Nid yw'n syndod, felly, weld Undeb y Cymdeithasau Cymraeg yn mynd ati maes o law i drefnu ysgolion haf ar linellau tebyg.

Darparai ysgolion haf yr Undeb wersi ar y Gymraeg a'i llên a'i diwylliant ac ar hanes Cymru, ac roedd lle amlwg ynddynt hefyd i astudiaethau crefyddol ac i ganu gwerin. Nid oeddynt wedi eu hanelu'n benodol ar gyfer athrawon, a gwelid pobl o bob rhan o'r wlad ac o gefndiroedd a galwedigaethau amrywiol yn eu mynychu. Wedi dweud hynny, un o amcanion yr Ysgol Wyliau flynyddol hon oedd hyrwyddo'r 'Gymraeg yn gyfrwng hyfforddi yn ogystal ag yn bwnc hyfforddiant yn sefydliadau addysg ein gwlad', a nododd yr adroddiad pwysig, *Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd* (1927), fod yr Ysgol Wyliau wedi ei hanelu yn rhannol 'ar gyfer athrawon a fynnai ymgydnabod yn llwyrach â llen ac â hanes Cymru. Rhoddir hyfforddiant yn y dulliau diweddaraf o ddysgu ieithoedd, a'u cyfaddasu at y Gymraeg.' Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg oedd Roland Thomas, brodor o Gwm-twrch a fu'n athro yn Aberhonddu a Rhymni ac a luniodd gyfrol arloesol ar Richard Price (1723–91), yr athronydd dylanwadol o Forgannwg, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Rhydychen yn 1924.

Yn y flwyddyn honno, mentrodd glöwr ifanc o Landybïe i'r Ysgol Wyliau, ac yntau ar fin mynd i Goleg Trefeca a'i fryd ar fod yn weinidog. Gomer M. Roberts (1904–93) oedd ei enw, a byddai'n dod maes o law yn awdurdod mawr ar emynyddiaeth ac ar hanes Methodistiaeth Galfinaidd. Yn Llanwrtyd y cynhelid yr Ysgol Wyliau bron bob tro, ac mae Gomer Roberts yn agor ysgrif o'i atgofion am Ysgol 1924 trwy sôn am 'dynfa anghyffredin' Llanwrtyd a'i ffynhonnau fel cyrchfan gwyliau i weithwyr diwydiannol y De – ac yn wahanol iawn yn hynny o beth i Landrindod, oherwydd 'y werin ffraeth a âi i Lanwrtyd,' meddai, 'ond y *crachach* bondigrybwyll a welid yn Llandrindod'!

Llwyddwyd i ddenu rhai o enwau amlwg y dydd i ddysgu yn yr Ysgol Wyliau. Er enghraifft, bu Robert Williams Parry yn trafod barddoniaeth gyfoes yn y dosbarth llenyddol yn 1924. Roedd newydd gyhoeddi *Yr Haf a Cherddi Eraill*, a dywed Gomer Roberts fod pob un yn y dosbarth wedi prynu copi o'r gyfrol 'am bris gostyngol, a llofnod y bardd ar ddalen-deitl pob copi'.

Cyhoeddwyd tair cyfrol o 'Drafodion yr Ysgol Wyliau Gymraeg'. Y gyntaf oedd *Doethineb Llafar* (1925), sef enghreifftiau o ddiarhebion a llên gwerin, o Gantref Buallt yn bennaf, o gasgliad Evan Jones (1850–1928), yr hynafiaethydd hunan-addysgedig o ffermdy Ty'n-y-pant ger Llanwrtyd, a fyddai'n arwain mynychwyr yr Ysgol ar deithiau i fannau o ddiddordeb hanesyddol yn y cyffiniau. Yr ail gyfrol oedd *Camre'r Gymraeg* (1926) gan R. S. Rogers (1882–1950), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Abertawe a raddiodd yn y Gymraeg yng Nghaerdydd; a'r drydedd oedd *Alawon Gwerin Cymru* (1927), detholiad gan Philip Thomas (1857–1938), Castell-nedd, un o hoelion wyth Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, o 41 o'r caneuon 'a genir o flwyddyn i flwyddyn yn yr Ysgol Wyliau'.

Yn ogystal â chynnal yr Ysgol Wyliau, fel y soniwyd y tro diwethaf gwnaeth Undeb y Cymdeithasau Cymraeg gyfraniad pwysig i sawl cyfeiriad arall, megis pwyso dros gael lle teilwng i'r Gymraeg yn y bywyd cyhoeddus, ymgyrchu dros Gymreigio byd addysg a hyrwyddo cyhoeddi Cymraeg. A gellid ychwanegu at y rhain sawl maes arall y cyfrannodd yr Undeb yn arwyddocaol iddynt – er enghraifft, trwy feithrin cysylltiadau â'r gwledydd Celtaidd eraill ac â'r 'Cymry ar Wasgar', a thrwy hybu'r ddrama a chanu gwerin. Yn wir, er i'r Undeb ddod i ben yn 1941, nid gormod honni iddo osod y sylfeini ar gyfer y datblygiadau pwysig yn hanes y Gymraeg a'i statws a'i defnydd a welid yn gynyddol yn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd. Roedd y

bargyfreithiwr Ithel Davies (1894–1989) yn aelod amlwg o gangen yr Undeb yn Abertawe, ac fel y dywed yn ei hunangofiant *Bwrlwm Byw* (1984), roedd Undeb y Cymdeithasau Cymraeg yn 'fudiad cwbl unigryw' a wnaeth 'ddiwrnod da o waith tra bu'.

Fel yr awgrymwyd uchod, roedd cyfraniad D. Arthen Evans yn gwbl allweddol i lwyddiant yr Undeb, a byddai'n iawn ystyried y Barri yn bwerdy pwysig eithriadol yn y frwydr dros y Gymraeg a'i diwylliant yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif pe ond am y ffaith mai yno yr oedd Arthen yn byw ac yn gweithio. Ond fel y gwelwyd yn ystod y gyfres hon o erthyglau, yr hyn sy'n drawiadol am y Barri yn y cyfnod hwnnw yw bod yno gylch nodedig o siaradwyr Cymraeg talentog, blaengar ac ymroddgar – yn athrawon ac yn weinidogion, yn llenorion ac yn gerddorion – a gyfrannodd yn arwyddocaol tuag at hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn lleol yn ardal y Barri, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Crybwyllwyd sawl un o'r bobl hynny yn ystod y gyfres, gan gynnwys Ben Evans (tad-cu Gwynfor Evans, aelod seneddol cyntaf Plaid Cymru), Gwen ac Edgar Jones, Mary a Silyn Roberts, R. Williams Parry ac Annie Ffoulkes. A gellid fod wedi rhoi sylw i nifer o rai eraill, megis yr awdur a'r athrawes 'Mair Elli' (Esther M. Phillips), a fu'n weithgar iawn gyda Chymrodorion y Barri; yr arolygydd ysgolion, W. Bryn Davies (awdur yr emyn i blant, 'Canaf yn y bore/ am dy ofal cu'); a'r gweinidog gyda'r Annibynwyr, D. H. Williams, brodor o Ddeiniolen a fu'n Gadeirydd Pwyllgor Addysg Morgannwg am flynyddoedd. Fel y dywedodd un arall o bileri'r iaith yn y Barri, y gweinidog Bedyddiedig W. Rhys Jones ('Gwenith Gwyn'), yn ei golofn Gymraeg yn y *Barry Herald* yng Ngorffennaf 1923: 'Y mae a fynno'r Barri a chymeryd y blaen i adfer yr arfer gyffredin o'r iaith Gymraeg mewn llafar a llên.'



***Ellen Evans M.A. Prifathro Coleg y Barri 1923–1953***

Ond cyn terfynu, mae un arall a gydweithiai'n agos ag Arthen Evans y mae'n rhaid ei chrybwyll, sef Ellen Evans (1891–1953). Fe'i ganed a'i magu yn y Gelli yng Nghwm Rhondda i rieni a aned yn Llan-non yn sir Aberteifi ac a oedd yn selog eu hymroddiad i fywyd crefyddol a diwylliannol Cymraeg Cwm Rhondda. Wrth ddechrau hyfforddi i fod yn athrawes, daeth Ellen dan ddylanwad 'Defynnog' (David James), a oedd yn athro yn y Cwm, cyn iddi fynd i astudio ar gyfer gradd yn y Gymraeg yn Aberystwyth. Yn 1914, sefydlwyd Coleg Hyfforddi yn y Barri ar gyfer darpar-athrawesau o siroedd Morgannwg a Mynwy. Penodwyd Ellen Evans yn ddarlithydd yn y Gymraeg yno, ac yna ei dyrchafu'n bennaeth y coleg yn 1923, lle y bu'n 'teyrnasu' hyd ei marwolaeth yn 1953. Daeth yn ffigwr dylanwadol iawn ym myd addysg. Hi oedd yr unig fenyw ar y pwyllgor a benodwyd gan y Bwrdd Addysg i lunio'r adroddiad *Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd* (1927). Roedd yn selog dros Gymru a'r Gymraeg a thros addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mynnodd, er enghraifft, fod pob myfyrwraig yn ei choleg yn astudio'r Gymraeg i ryw lefel, gan gynnwys cwrs i ddechreuwyr ar gyfer y di-Gymraeg. Roedd ganddi ddiddordeb arbennig mewn addysg feithrin ac roedd yn gefnogydd brwd i'r mudiad heddwch. Bu'n gyfaill i'r Athro Griffith John Williams a'i wraig Elisabeth oddi ar iddynt fod yn gyd-fyfyrwyr yn Aberystwyth; ac nid yw'n syndod felly weld Ellen Evans, fel ei dau gyfaill, yn dod yn hoff iawn o Fro Morgannwg, fel y dengys ei llyfr *Y Wen Fro: Mannau Hanesyddol Bro Morgannwg* (1931).

Pan ddaeth Ellen Evans yn bennaeth Coleg y Barri yn 1923, fe'i holynwyd yn ddarlithydd Cymraeg yn y coleg gan Cassie Davies (1898–1988). Arhosodd yn y swydd honno nes ei phenodi'n Arolygydd Ysgolion yn 1938, ac fe gawn yn hunangofiant Cassie Davies, *Hwb i'r Galon* (1973), ddarlun byw o'i bywyd yn y Barri ac o'i phennaeth, Ellen Evans – 'un o'r cymeriadau mwya grymus a lliwgar a welais i erioed', meddai; 'dynes dal pryd tywyll, ŵyneb cadarn, llygaid treiddgar a gên bendant', a'i pharabl yn 'rym llifeiriol'.

Sefydlodd Cassie Davies gangen o Blaid Cymru tra oedd yn y Barri ac ymhyfrydai yn y ffaith mai hi a dderbyniodd ddyn ifanc o'r Barri o'r enw Gwynfor Evans yn aelod o'r Blaid pan ddaeth ef adref o'r coleg yn Aberystwyth ym Mehefin 1934. Aeth Gwynfor yn ei flaen, wrth gwrs, i fod yn Llywydd Plaid Cymru rhwng 1945 a 1981 a'i haelod seneddol cyntaf yn 1966. A thybed beth fuasai hanes Cymru a'r Gymraeg pe na bai wedi ymuno â'r Blaid yn y Barri ar y diwrnod hwnnw yn 1934?

**Nodyn llyfryddol**

Ychydig o sylw y mae Undeb y Cymdeithasau Cymraeg wedi ei gael gan haneswyr. Yr eithriad mawr yw Dr Marion Löffler, sydd bellach yn dysgu hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n werth troi, er enghraifft, at ei herthygl yn *Nhrafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* am 1997 ar gyfer disgrifiad manwl o weithgarwch yr Undeb. Mae gan Dr Sian Rhiannon Williams, sy'n byw erbyn hyn yn y Barri, erthygl am Ellen Evans yn *Nhrafodion* y Cymmrodorion am 2013, ac mae gan Dr Robin Gwyndaf erthygl am W. Rhys Jones ('Gwenith Gwyn') yn *Nhrafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr* am 1980.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## SALEM, TREGANNA

**Taith Côr Gospel UAB i Gymru**



Ar 15 Medi 1963, cafodd pedwar o blant eu lladd mewn ymosodiad hiliol ar Eglwys yn Brimingham, Alabama. Cafwyd ymateb cryf i hyn o bob cwr o'r byd. Roedd John Petts yn artist gwydr o Gymru, ac fe benderfynodd ddylunio ffenestr wydr yn portreadu Iesu Grist fel dyn du a'i rhoi fel rhodd i'r eglwys er mwyn dangos cefnogaeth iddi. Yr enw a roddir arni hyd heddiw yw'r 'Wales Window'. Yn 2019, aeth Sian Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd ar ymweliad ag Alabama, ac ailgydio yn y cyfeillgarwch hwnnw rhwng Cymru ac Alabama, ar ran pobl ifanc Cymru.

Eleni, daeth Côr Gospel Prifysgol Brimingham Alabama ar ymweliad â Chymru, a rhan o'r daith honno oedd cyngerdd a gynhaliwyd yn Salem ddechrau mis Mehefin, gydag Aelwyd y Waun Ddyfal. Roedd Capel Salem yn llawn a'r gynulleidfa wrth ei bodd. Fel y gwelwch o'r llun, roedd pawb ar eu traed yn cyd-ganu!

Llongyfarchiadau, a diolch i'r Urdd am drefnu.

**Adran Salem**

Cafwyd perfformiad ardderchog gan Adran Salem yn y gystadleuaeth Parti Llefaru yn Llanymddyfri. Da iawn chi – rydym i gyd yn falch ohonoch.

**Cystadleuaeth Canwr y Byd y BBC**

Llongyfarchiadau Jessica Robinson ar gyrraedd rownd derfynol Cystadleuaeth Canwr y Byd y BBC yng Nghaerdydd. Rydym i gyd yn ymfalchïo yn y gamp ac yn dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.



**Clwb Brecwast**

Os ydych yn riant newydd ac yn awyddus i gymdeithasu â rhieni newydd eraill, cofiwch am y Clwb Brecwast sy'n cael ei gynnal i rieni a phlant/babanod o dan oed meithrin ar fore Mercher yn Salem bob pythefnos.

**Clwb Coffi**

"Cof(f)i"wch bod croeso i chi ymuno â'r Clwb Coffi os hoffech chi ymuno am sgwrs a chwmnïaeth ambell i fore Gwener.

**Cysylltu**

Os hoffech chi gael gwybod be sy'n digwydd yn Salem, a phryd, cofiwch ein dilyn ar Facebook a Twitter, neu ewch i'n gwefan.

## BETHEL, PENARTH

Fel arfer mae'n gweinidog yn defnyddio sgrîn y capel i ddangos cymeriadau'r Beibl. Ond, ar Sul Mehefin 11, gwelsom lun o Kevin ei hun – yn cario babi, newydd-anedig, y cyntaf, Noa. Llawenhawn gyda'r teulu.

Cefnogodd Hana Lili, un o ieuenctid Bethel (merch Catrin a Guto, ŵyres Pat ac Alvin), y band Coldplay yn Stadiwm y Principality, Caerdydd ar Fehefin 6ed a 7ed. Mae Hana wedi perfformio ers rhai blynyddoedd mewn nifer o gigs a gwyliau cerddorol – Gŵyl Fach y Fro, Tafwyl, In It Together, ond yn sicr dyma'r gig mwyaf iddi; cafodd gyfle i berfformio i dorf enfawr. Mae'r band Coldplay ar hyn o bryd ar daith ogwmpas y byd. Bu hyn yn gyfle gwych i Hana, yn brofiad anhygoel gyda'r band byd-enwog hwn. Llongyfarchiadau Hana!!

Mae gardd Emma yn eli i'r llygad. Yn ddiweddar agorwyd yr ardd gyda thair arall i'r cyhoedd a chodwyd swm sylweddol. Edrychwn ymlaen at fwynhau'r ardd eto cyn bo hir. Mil ddiolch Emma.

Yn yr oedfa ar Fehefin 11eg tynnodd Kevin ein sylw at eiriau yn Eseia 6, 1-8, 'Pwy a anfonaf?....Dyma fi' a chymwyso'i neges at enghreifftiau o bobl oedd wedi dychmygu posibiliadau bod yn greadigol wrth wynebu her newydd. Felly y mae arnom ym Methel gyda Kevin yn ymddeol cyn bo hir.

Ar Fehefin 18fed, wrth olrhain hanes actau'r apostolion, bu Kevin yn holi ynghylch sut y mae gweithredoedd Ysbryd Duw yn cael eu hamlygu yn ein plith a hefyd sut rydym ni yn amlygu dylanwad Ysbryd Duw yn ein hoedfaon a'n bywyd beunyddiol.

Ar Fehefin 25ain cawsom arweiniad treiddgar gan ein cyd-aelod Sian Meinir, wrth bwysleisio lle canolog Iesu i bopeth yn ein bywyd. Cafwyd myfyrdod manwl ar Ioan 21, 1-14. Roedd emyn 379 yn arbennig; un o emynau llai cyfarwydd W.Rhys Nicholas efallai, ond cyfoethog fel arfer.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar ddydd Llun, Mehefin 12, cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel a chasglwyd swm sylweddol ar gyfer y Banc Bwyd. Cawsom adloniant gan y gantores Sian Francis a rannodd ei thalentau gyda ni yn rhad ac am ddim er budd yr elusen. Diolch yn fawr iawn iddi, a diolch hefyd i bawb a ddaeth i helpu a chefnogi'r bore hwylus oedd yn gyfle i gwrdd â ffrindiau yn ogystal â chodi arian.

Rydym yn dymuno'n dda i Llinos Howells fydd yn cychwyn ar ei thaith i Batagonia yn ystod yr wythnosau nesaf ac a fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd fel athrawes Gymraeg yno.

Yn ystod mis Gorffennaf cawn gyfle i groesawu i'r pulpud y Parch. Aled Edwards, Parch. Catrin Roberts, y Parch. Aled Gwyn a'r Parch. Dafydd Owen.

Ar Orffennaf 9 cynhelir gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog y Parch. Evan Morgan.

Ni chynhelir gwasanaethau yn y capel yn ystod mis Awst ond bydd ein hoedfaon yn ail ddechrau ar Fedi'r 3ydd.

## EBENESER

**Tir Dewi**



Braint oedd cael cwmni prif weithredwr elusen Tir Dewi sef Gareth Davies gyda ni yn yr oedfa foreol ar y Sul cyntaf o Fehefin. Daeth atom yr holl ffordd o Roch yn Sir Benfro er mwyn derbyn siec o £3,600 tuag at yr elusen. Hon oedd ein helusen enwebedig fel eglwys yn ystod 2022. Cyflwynwyd y siec gan Eleri Williams. Gellir gweld fideo o'r cyflwyniad ar ein sianel Youtube – Eglwys Ebeneser Caerdydd.

**Pererindod**



Ar ddydd Sul aeth aelodau Ebeneser ar bererindod i Fro Morgannwg gan fwriadu galw yng nghapel Bethesda'r Fro ger Llanilltud Fawr. Dim ond stopio yno wnaethom gan fod oedfa ar ei chanol, ond soniodd Gwilym Dafydd am emynwyr y fro. Ymlaen i eglwys hynafol Sant Illtyd ac Alun yn rhannu peth o'r hanes. Cafwyd cinio gwerth chweil yn Y Cwtch cyn symud ymlaen i Ardd Ffisig, Y Bontfaen a sgwrs am yr ardd gan Carys Whelan. Daeth y diwrnod i ben yn Y Tabernacl, Porthcawl gyda gwasanaeth byr.

**Cyngerdd**

Cynhelir cyngerdd er budd apêl Daeargryn Syria Twrci DEC am 7.00 nos Fercher 12fed Gorffennaf yng nghapel y Methodistiaid. Cymerir rhan gan Côr Cana, Parisa Fouladi a Cynan Llwyd. Tocynnau ar werth yn Siop y Felin. £10.00 i oedolion a £5.00 i blant.

## EGLWYS Y CRWYS

Trist i ni fel Eglwys oedd derbyn y newydd am farwolaeth Miss Marian Williams. Roedd Marian wedi bod yn aelod ac yn flaenor ffyddlon ac annwyl iawn yn Y Crwys am flynyddoedd. Symudodd i fyw i gartref preswyl yn Llanrwst cyn gorfod symud i gartref gofal yn Llandudno. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Janet Phillips yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Robert Ward yn Newcastle, Awstralia. Roedd wedi ymgartrefu yno ers hanner canrif ac yn gweithio fel Newyddiadurwr i gwmni Rupert Murdock. Meddyliwn am Janet a'i chwaer Dilys, sydd yn dal i fyw yn Sydney, Awstralia.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Catrin Thomas yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yng nghyfraith, Gwilym Thomas, yn wreiddiol o Niwbwrch Ynys Môn. Mae ein meddyliau gyda'r teulu oll.

Llongyfarchiadau i'n pobl ifanc a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri. Rydym fel Eglwys yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. Pob llwyddiant i'r rhai fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst.

Cynhaliwyd Te Mefus llwyddiannus o dan nawdd y Gymdeithas. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau ac i Arthur a Diana Evans am agor eu cartref a'u gardd i ni eto eleni. Mwynhawyd y prynhawn yn fawr iawn a braf oedd cyfarfod â hen gyfeillion.

Mae plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn edrych ymlaen am eu Trip i Benarth. Byddant yn cael cyfle i gael taith fer o gwmpas Bâd Achub Penarth cyn treulio amser yn cael picnic a chwarae. Diolch i Hannah Thomas am y trefniadau.

Trefniadau oedfaon misoedd Awst a Medi:

Edrychwn ymlaen am gael cyd-addoli gyda'n cyfeillion o Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn ystod mis Awst.

Yr oedfaon am 10.30 a 6.00 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

Awst 6ed – Eglwys Y Crwys gyda'r Parch. Dafydd Andrew Jones yn gwasanaethu.

Awst 13eg – Eglwys Y Tabernacl gyda'r Parch. Aled Lewis Evans

Awst 20fed – Eglwys Minny St. gyda'r Parch. Carwyn Siddall – oedfa'r bore am 9.30 o'r gloch

Awst 27fed – Eglwys Ebeneser gyda'r Parch. John Roberts – oedfa'r prynhawn am 3.00 o'r gloch

Byddwn yn dychwelyd I Eglwys y Crwys ym mis Medi.

Medi 3ydd – Bore: Parch. Huw Lewis; Hwyr: Parch. Glyn Tudwal Jones

Medi 10fed – Yr Athro Ddr Eryl Wyn Davies

Medi 17eg – Bore: Mr Marc Jon Williams; Hwyr: Eglwys Minny St.

Medi 24ain – Parch. Glyn Tudwal Jones

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 2, 9 ac 16 Gorffennaf. Bydd oedfa hwyrol 2 Gorffennaf yn oedfa gymun. Ddydd Sul, 23 Gorffennaf, y Parchedig John Roberts fydd yn arwain oedfaon y dydd ac aelodau'r eglwys fydd yn gyfrifol am ddwy oedfa 30 Gorffennaf. Yn ystod oedfaon bore Sul 2 ac 16 Gorffennaf bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod. Ni fydd Ysgol Sul yn ystod gwyliau'r haf. Bydd oedfaon dydd Sul, 20 Awst (9:30 a 18:00) yn Eglwys Minny Street yng ngofal y Parchedig Carwyn Siddall. Croeso i bawb.

**Gweithgarwch y mis**

Mae gweithgareddau mis Gorffennaf yn cynnwys ymweliad ag Eglwys Llanfair, Penrhys brynhawn Sul, 9 Gorffennaf a chyfle i gynorthwyo gyda darpariaeth yr Ystafell Glyd yn y Tabernacl, yr Ais brynhawn Sul, 23 Gorffennaf. Bydd dwy sesiwn *Ciniawa gyda'r Saint* yn cael eu cynnal y mis hwn (17 a 24 Gorffennaf am 11:30). Bydd cyfle i fwynhau pryd o fwyd gyda'r hwyr (Koinônia) nos Sul, 16 Gorffennaf a thaith ar fws i'r ardal i'r dwyrain o Gaerdydd ddydd Mawrth, 25 Gorffennaf. Edrychwn ymlaen at holl weithgarwch y mis.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da i'r Gweinidog, y Parchedig Owain Llŷr Evans, wedi iddo gael ei ethol yn Ddarpar-lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd fel Darpar-lywydd bydd yn dod i'r Llywyddiaeth yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn 2025.

www.minny street.org
@MinnyStreet Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul (tymor ysgol) (10:30 a.m.):**

2 Gorffennaf – Oedfa Gymun - Delwyn Sion
9 Gorffennaf – Oedfa Ardal y Creigiau
16 Gorffennaf – Oedfa - Parchedig Aled Edwards
23 Gorffennaf - Oedfa - Parchedig Robert Owen Griffiths
30 Gorffennaf – Oedfa a'r y cyd â'r Tabernacl, Efail Isaf (ym Methlehem)
6 Awst – Oedfa a'r y cyd a'r Tabernacl, Efail Isaf (yn y Tabernacl) [10:45 a.m.]
13 Awst - Oedfa a'r y cyd (ym Methlehem)
20 Awst - Oedfa a'r y cyd (yn y Tabernacl) [10:45 a.m.]
27 Awst - Oedfa a'r y cyd (ym Methlehem)

Mae'n mis Mehefin o ddathlu ym Methlehem wedi dod i ben, a mynegwn ein diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o hynny – trwy fynychu'r oedfaon, yn aelodau, cyfeillion ac ymwelwyr – trwy gymryd rhan trwy lais, llun a gweithred – trwy ddewis a chanu hoff emynau, dan arweiniad crefftus Eilir Owen Griffiths, a chyfeiliant swynol Delyth Evans – trwy asbri heintus cyflwyniadau plant yr Ysgol Sul a'u rhieni – trwy bytiau amserol a phwrpasol Arweinydd yr eglwys, Delwyn Sion, trwy gydol y mis – a'r cyfan yn cael ei gloi yn gelfydd gyda her a chyfeiriad i Fethlehem wrth gamu i'r ganrif a hanner nesaf, a hynny yn raslon a diymffrost gan ein cyn-Weinidog, y Parchedig R Alun Evans.




Bu'r artist Anthony Evans yn brysur yn ei stiwdio yn creu portread cyfoes o'r capel ac fe ymgorfforwyd englyn o waith Rhys Powys yn gelfydd arno – mae'r cyfuniad yn cyfleu yn berffaith yr hyn sy'n gwneud Bethlehem, Gwaelod-y-garth, mor arbennig i'n heddiw a'n yfory.

*Yn y Gwaelod, gyda'n gilydd – y down*
*I Dŷ llawn llawenydd;*
*Hafan ddiffwdan ein ffydd,*
*Manna yng nghysgod Mynydd.*

[Mae nifer gyfyngedig o brintiau o'r llun [maint 24" x 16"] ar werth am £35, gyda chyfran o'r gost yn mynd i gronfa ein helusen leol, Cymdeithas Alzheimer

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Ddydd Iau 22 Mehefin, cynhaliwyd Uchel Offeren yn y Gadeirlan yng Nghaerdydd. Daeth cynrychiolwyr o'r plwyfi ynghyd ag arweinwyr dinesig ac eciwmenaidd i ddathlu arddodiad y *pallium* ar Archesgob Mark O'Toole.

Cylch wen o wlân main yw'r *pallium* sy'n symbol o undod gyda'r Pab a'r Eglwys fyd-eang, ac o gyfrifoldeb yr Archesgob i ofalu am y ffyddloniaid sydd o dan ei ofal. Mae traddodiad y wisg yn mynd yn ôl i'r Pab Gregory yn y chweched ganrif, ac wrth ei gwisgo, mae disgwyliad i'r Archesgob ymddwyn bob amser gyda gostyngeiddrwydd a chyfiawnder.

Daeth cynrychiolydd y Pab Ffransis yng ngwledydd Prydain, Archesgob Miguel Maury Buendía, i urddo'r Archesgob mewn gwasanaeth llawen, a chroesawyd y gwesteion wedyn i dderbyniad yn y Gonglfaen.

Mae aelodau'r Cylch Catholig, ynghyd â phlwyfolion lleol ac Eisteddfodwyr, yn edrych ymlaen at Offeren yr Eisteddfod. Eleni caiff ei chynnal yn eglwys Joseff Sant, Pwllheli, ddydd Iau 10 Awst am 6 o'r gloch. Mae hwn bob amser yn achlysur hyfryd i Gymry Catholig, un sy'n rhoi cyfle i ni gyfarfod i addoli a chymdeithasu yn ystod wythnos ein Gŵyl genedlaethol.

**Offeren fisol:** dydd Sul 30 Gorffennaf am 4.30 yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd CF1 1AD. Fydd dim Offeren Gymraeg ym mis Awst.

**Offeren fisol:** dydd Sul 24 Medi am 4.30 yn Eglwys Teilo Sant.

Hefyd ar gael ar lif byw yr eglwys ar y wefan: stteilos-olol.co.uk

## EGLWYS DEWI SANT

**Gwasanaeth i Bawb**

Am y tro cyntaf cynhaliwyd y gwasanaeth hwn ar fore Sul, 11eg o Fehefin. Ei holl ddiben yw cynnig addoliad sy'n ysgafnach ei naws gydag awyrgylch sy'n wahanol i'r gwasanaethau mwy ffurfiol. Roedd yn cynnwys elfennau oedd yn galluogi plant, pobl ifanc ac oedolion i addoli gyda'u gilydd mewn un gwasanaeth.

**Cymorth Cristnogol**

Diolch i bawb a gyfrannodd i'r casgliad Cymorth Cristnogol. Rhwng y stondin cynnyrch cartref a'r amlenni casglwyd £700.00.

**Pererindod i Eglwys Llancarfan**

Roedd yr haul yn gwenu'n braf brynhawn Iau, Mehefin 8fed ar gyfer y bererindod i Eglwys Llancarfan. Cafwyd croeso gwresog gan y Ficer, y Parchedig Michael John a siaradodd am Oes Aur y Seintiau a Cadog Sant a'i fynachlog yn Llancarfan. Tywysodd y warden, Sam Smith, y pererinion o amgylch yr eglwys a chafwyd hanes darganfod y murluniau canoloesol ganddo. Cyn gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid cafwyd anerchiad gan y Parchedig Vincent Gardner oedd yn gosod y murluniau yn eu cefndir hanesyddol. Cyn gadael y pentref cafwyd pryd bwyd blasus yn y *Fox and Hounds.* Diolch i Dyfrig am drefnu.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd y Coffi a Chlonc arferol fore Sadwrn, Mehefin 17eg. Er mai criw bychan oedd yno roedd y gwmnïaeth yn wresog a'r sgwrsio'n llifo. Cynhelir y bore Coffi a Chlonc nesaf ddydd Sadwrn, Gorffennaf 15eg.

**Datganiad Organ**

Cafwyd datganiad gafaelgar gan Dr Peter King (organydd emeritws Abaty Caerfaddon) ddydd Gwener, Mehefin 9ed. Llwyddodd i swyno'r gynulleidfa â seiniau cyfoethog organ Eglwys Dewi Sant. Cynhelir y datganiad organ nesaf yn EDS ddydd Gwener, Awst 11eg.

**Priodas**

Dymunir bob bendith a dedwyddwch i Alison Young a Llyr Davies ar achlysur eu priodas yn Eglwys Dewi Sant.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Cartref Newydd**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Owain ac Elizabeth James yn eu cartref newydd yn yr Eglwys Newydd.

**Pregethwyr Gwadd**

Cawsom y pleser yn ddiweddar o groesawu atom sawl pregethwr gwadd. Daeth Parry Davies ac Aron Treharne, y ddau o Gaerfyrddin; Parry yn henuriad yn Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin ac Aron yn weinidog yng nghapel Penuel. Pleser hefyd oedd gwrando ar Gwydion Lewis, un o'n henuriaid yn pregethu un Sul.

**Peintio Murlun**

Yn ddiweddar mae Lois Adams, sy'n gwneud gwaith efengylu creadigol yn yr eglwys ac mewn mannau eraill, wedi bod yn cydweithio gyda Eglwys Bedyddwyr Grangetown yn creu murlun i addurno wal gefn y capel. Cafodd Lois gymorth disgyblion dwy ysgol gynradd yn y gwaith o greu'r murlun a gobaith yr eglwys yw y bydd y wal yn bont rhwng yr eglwys a'r gymuned leol. Casglwyd ynghyd syniadau'r plant a pheintiwyd lluniau yn cyfleu hanes bywyd gyda dwylo Duw yn gweu'r cyfan at ei gilydd. Roedd y plant yn wedi eu cyffroi o weld eu syniadau ar y murlun gorffenedig.

**Agor y Capel**

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 26 Mehefin bydd Tabernacl, yr Eglwys Newydd, ein cartref presennol, yn agored i'r cyhoedd a bydd croeso mawr i bawb alw i mewn a gweld arddangosfa o waith creadigol rhai o oedolion a phlant y eglwys.

**Gŵyl yr Eglwys Newydd**

Bwriadwn gynnal stondin yn yr ŵyl a threfnu gwahanol weithgareddau ar gyfer plant.

## TABERNACL, YR AIS

Eleni cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Bedyddwyr Cymru yn y Tabernacl. Cafwyd dau ddiwrnod llwyddiannus dros ben. Braint i ni oedd cael gweld Bill Davies, un o'n diaconiaid ffyddlon, yn cael ei neilltuo'n Llywydd yr Undeb am y flwyddyn 2023 hyd 2024. Mawr yw ein diolch i'r aelodau a gymerodd ran yn yr achlysur gan gynnwys Côr y Tabernacl.

Bu'r Clwb Darllen yn brysur yn ystod y misoedd diwethaf. Ar ddiwedd mis Mai, *Murder before Evensong* gan Richard Coles oedd y dewis. Yna ar ddiwedd mis Mehefin, y llyfr diweddaraf dan sylw oedd Cwlwm gan Ffion Enlli.

Cafwyd datganiad arbennig ar yr organ gan Christopher Enston yn ddiweddar, ei bumed ymweliad a'r Tabernacl. Mae croeso i chi ymuno gyda ni yn y Tabernacl ar yr 22ain o'r mis hon i ddatganiad organ pan fyddwn yn dathlu dros ddau gan mlynedd o wasanaeth organyddion y capel. Ar hyn o bryd mae naw organydd (ydi hyn yn record?) Dewch i wrando arnyn nhw.

Fel rhan o Ŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023 ar ddechrau Gorffennaf, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn y Tabernacl dan arweiniad Euros Rhys gyda Marc Jon wrth yr organ.

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau i'r gwsanaethau yn ystod Mis Mehefin: ein gweinidog y Parchg Rosa Hunt, Dafydd Huw, Plant yr Ysgol Sul, y Parchg Sian Elin Thomas, y Parchg Owain Llyr Evans a'r Parchg Lona Roberts.



# Llwyddiant Eisteddfodol i'r Brodyr Frohawk

Llongyfarchiadau i Gethin ac Owen Frohawk a gafodd amser buddiol yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri. Mae Gethin yn ddisgybl Blwyddyn 6 yn Ysgol y Wern, ac Owen yn ddisgybl Blwyddyn 8 Ysgol Gyfun Glantaf.

Agorodd Gethin y cystadlu ar fore cyntaf yr ŵyl, gan feddiannu dwy fedal arian ac un efydd erbyn diwedd y dydd ar ei glarinét. Yn ogystal â'r unawd, arweiniodd *ensemble* a cherddorfa clarinetau. Nes ymlaen yn yr wythnos, cipiodd Owen y fedal aur yn yr unawd chwythbren, cyn ymuno â'r parti bechgyn llwyddiannus dan arweinyddiaeth Lloyd Macey. Mae'r brodyr wedi datblygu eu crefft offerynnol dan diwtora ysbrydoledig y rhagorol Sara Lovell-Jones. Yn y llun, mae'r bechgyn yn dathlu eu llwyddiant yng nghwmni Dilwyn Price, cydlynydd y seremonïau gwobrwyo.



# Ysgol y Berllan Deg

**Mabolgampau**

Cafwyd bore o gystadlu brwd gyda amrywiaeth o gystadlaethau yn y Cyfnod Sylfaen ac yn yr Adran Iau gyda'r plant yn mwynhau cystadlu yn eu llysoedd. Llongyfarchiadau i dîm Tawe a ddaeth yn fuddugol.

**Criced**

Da iawn i dîm criced blwyddyn 5 a 6 am ennill pedwar gêm allan o bedwar yng Ngwyl Dynamos Criced yn Sain Ffagan**.** Dangosodd bawb sgiliau gwych a chyd-weithio arbennig. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i dîm criced newydd blwyddyn 4 hefyd am gymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd yng Nghaeau Llandaf. Roedd pawb wedi mwynhau eu profiad cyntaf o gynrychioli'r ysgol.



**Nofio - Blwyddyn 3**

Da iawn i blant blwyddyn 3 a gafodd gyfle i fynychu pwll nofio Canolfan Hamdden Dwyrain Caerdydd am wythnos gyfan i ddysgu sgiliau nofio a sut i gadw'n ddiogel yn y dŵr. Bu'n wythnos fuddiol iawn.

**Ymweliad â Sain Ffagan**

Ar Mehefin 7fed aeth disgyblion blwyddyn 5 i Sain Ffagan i ddysgu mwy am fywyd yn Oes Fictoria ac i gael profiad o fywyd ysgol plant y cyfnod. Bu'n addysgiadol iawn a dysgodd y disgyblion lawer.

**Prynhawniau Agored i Rieni**

Gwahoddwyd rhieni i mewn ar gyfer prynhawniau agored a oedd yn gyfle i weld y plant wrth eu gwaith ac yn ymgymryd â thasgau amrywiol yn seiliedig ar thema'r dosbarth. Roedd yn hyfryd gallu croesawu cymaint o rieni i'r ysgol unwaith eto.



**Corneli Darllen**

Diolch o galon i'r Ffrindiau am ymateb i lythyr gan aelodau'r cyngor ysgol yn gofyn am arian i wella amgylchedd darllen pob dosbarth, Roedd pob dosbarth wedi gwirioni o dderbyn £100 gan y Ffrindiau ac o gael dewis a phenderfynu beth yr oeddent am ei brynu fel dosbarth.

**Noson Ddiwylliannol Bro Edern - 13 Gorffennaf 23**

Nos Iau Gorffennaf 13eg rhwng 4pm a 6pm bydd rhai o blant yr ysgol yn cymryd rhan mewn noson ddiwylliannol yn dathlu doniau clwstwr Bro Edern. Mae croeso i bawb ddod i ymuno yn yr hwyl. Bydd eitemau o'r ysgol hon yn cynnwys rhannau o sioe haf Blwyddyn 3,4,5 a 6 eleni a phlant Blwyddyn 2 yn perfformio'r caneuon y byddant yn eu canu yn Tafwyl.



**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Mae Banc Lloegr wedi codi cyfraddau llog eto i 5% i geisio ymateb i lefelau chwyddiant sy'n parhau i fod yn uchel. Mae marchnadoedd ariannol bellach yn disgwyl i gyfradd sylfaenol Banc Lloegr godi i 5.5-6.0% yn ddiweddarach eleni, sydd wedi arwain at nifer o ddarparwyr morgeisi yn cynyddu eu cyfraddau llog. Os ydych ar forgais tymor penodol sy'n dod i ben o fewn y chwe mis nesaf, dechreuwch gynllunio o flaen llaw ac efallai byddwch yn elwa o gysylltu gyda arbenigwr morgeisi er mwyn iddynt allu asesu eich opsiynau.
2. Bu farw cadeirydd clwb pêl-droed West Ham, David Gold, yn ddiewyllys yn ddiweddar gan adael ystâd o £125,000,000. Heb unrhyw ewyllys, trosglwyddwyd ei ystâd gyfan yn syth i'w blant a'i wyrion. Gadawyd ei bartner hirdymor a'i ddyweddi o 15 mlynedd heb ddim o dan rheolau diffyg ewyllys (*'intestacy'*).

   Gall ei ddiffyg cynllunio arwain at swm treth etifeddiaeth enfawr yn daladwy gan ei deulu. Er mwyn osgoi hyn, y camau syml i'w cymryd yw i sicrhau bod genych chi ewyllys dilys er mwyn sicrhau bod eich asedau'n cael eu dosbarthu yn unol â'ch dymuniadau. I'r rhai sy'n ffodus i gael ystâd fawr, cynlluniwch yn gynnar i leihau eich rhwymedigaethau treth etifeddiaeth. Efallai y gallai ei ddyweddi wneud rhywfaint o hawliad yn erbyn yr ystâd os oedd Mr Gold yn ei chynnal yn ariannol.

***Cwestiynau Huw ac Aled:***

*Dwi wedi ymddeol ac mewn sefyllfa ffodus o gael pensiwn da ac asedau sylweddol. Dymunaf roi symiau misol i'm plant a'm hwyrion. Pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar fy ystâd yn y dyfodol, o ran treth etifeddiaeth?*

Gall unigolyn roi cyfanswm o £3,000 o roddion bob blwyddyn dreth heb iddynt gael eu hychwanegu at werth eu hystâd (a elwir yn '*annual exemption*'). Mae lwfans rhoddion bach blynyddol ar wahân o hyd at £250 y person hefyd ar gael, cyn belled nad ydych wedi defnyddio lwfans arall ar gyfer yr un person. Mae rhoddion mwy yn cael eu trin fel rhan o ystâd unigolyn os cânt eu gwneud o fewn 7 mlynedd o farwolaeth.

Fodd bynnag, mae eithriad gwerthfawr ar gyfer *rhoddion rheolaidd o'ch incwm*.

Er enghraifft, os yw eich incwm pensiwn net blynyddol ac eich cynilion yn £60,000 a'ch gwariant blynyddol arferol yn £42,000, gallwch wneud rhoddion o'ch incwm o £18,000 y flwyddyn, wedi'u rhannu'n rhoddion misol o £1,500. Bydd y rhoddion hyn wedi'u heithrio rhag treth etifeddiaeth yn y dyfodol. Cofiwch gadw cofnodion clir a manwl a datganiadau banc i ddangos y rhoddion a'ch incwm misol.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Llongyfarchiadau i Owain Wilkins



Hoffwn longyfarch a rhoi diolch enfawr i Owain Wilkins am redeg marathon Stockholm ar ddydd Sadwrn, Mehefin 3ydd. Roedd yn codi arian ar gyfer Uned Haematoleg Ysbyty Prifysgol Cymru er cof am ei fam Gaynor Wilkins. Derbyniodd Gaynor driniaeth yn yr uned a gofal arbennig gan y tîm Haematoleg am ddwy flynedd a hanner tra'n byw gyda cancr y gwaed. Er mwyn dangos ei ddiolch, cododd Owain arian i gefnogi'r uned, y staff gwych fu'n gofalu am ei fam, ac eraill sydd yn wynebu yr un profiad. Cafodd brofiad gwych o redeg y ras drwy brifddinas hardd Sweden, gorffennodd y ras mewn amser da, a chododd dros £4,500 ar gyfer yr uned. Synnodd â'r gefnogaeth a haelioni dderbyniodd gan bawb a'i alluogodd i godi swm mor sylweddol o arian. Llongyfarchiadau mawr i Owain am orffen ras heriol, a diolch yn fawr iddo am ei gefnogaeth i'r Uned Haematoleg yn Ysbyty Prifysgol, Caerdydd.

*John Wilkins*


# Adolygiad llyfr

## Ar Adain Cân
## gan Gareth Thomas

*'Dyma nofel hanesyddol sy'n dod a'r gorffennol yn hollol fyw.'* Dyna farn Jon Gower am nofel newydd Gareth Thomas a gafodd ei lansio yn Yr Hen Lyfrgell, Porth, Y Rhondda am 6 p.m. ar 19 Mai Yn ôl Jon Gower mae'r llyfr yn llwyddo i ail greu

*cyfnod y boogie woogie a saim Brylcreem yng ngwallt y dyn'on, cotiau Daks a sêr fel Clark Gable. Ond cyfnod hefyd pan mae cysgod rhyfel yn lledaenu dros Ewrop gyda rhyfel cartref yn Sbaen a Hitler yn chwarae gwyddbwyll gyda gwledydd cyfan.*

*Ynghanol y cyffro oll cawn stori serch, hanes perthynas ansicr rhwng dau sy'n dod o gefndiroedd hollol, hollol wahanol. Daw Siân o gymuned glos y Rhondda a'i bryd ar ganu, a'r feiolinydd George, sy'n dod o deulu cefnog a dosbarth gwahanol.*




*Drwy ddilyn hynt a helynt y cariadon annisgwyl cawn hefyd weld y byd yn newid - bomio Cwmparc a sefydlu gwersylloedd carchar megis Stalag Luft, aberthion y Frigâd Ryngwladol a bywyd yn ffatrïoedd ffrwydron enfawr Pen-y-bont. Clywn dinc y Wenhwyseg ar wefusau "arwyr dewr yr erwau glo" ac acenion estron y debutantes sy'n partïo tra bod y mwyafrif yn byw ar 'coupons.'*

*Dyma nofel hanesyddol sy'n dod a'r gorffennol yn hollol fyw - drwy fwg ffagiau Woodbines ac injan-donau awyrennau'r RAF ac yn adrodd stori oesol am ddyn a dynes.*

Yn ystod y lansiad cafodd penodau o'r llyfr eu perfformio gan actorion o'r Rhondda: Sarah -Louise (*cynt o S4C Prynhawn da*), Danny Grehan (*Pobol Y Cwm, Perthyn, Rain*) a Ffion a Dylan, disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhondda. Roedd Côr Cwm Rhondda a'i harweinydd Seren Haf yn cyfrannu cân. Meinir Pierce Jones o gyhoeddwyr Gwasg Y Bwthyn oedd yn trafod y llyfr gyda'r awdur.



# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

**Nia Siân Jones sydd yn rhannu hanes tymor llawn cyffro Merched Clwb Rygbi Cymry Caerdydd**

Profodd tymor 22/23 Merched Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn un cyffrous a llwyddiannus yn llawn eiliadau cofiadwy, cystadleuaeth ffyrnig, a chyflawniadau clodwiw.

Dechreuodd y tymor ar nodyn uchel gyda buddugoliaeth o 36-34 yn erbyn y Coed Duon, eu cystadleuwyr mwyaf yn y tymor blaenorol. Gyda phob gêm, gwellodd eu cydlyniant a'u dealltwriaeth o'r gêm, gan arwain at fuddugoliaethau trawiadol yn erbyn gwrthwynebwyr cryf.

Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen a'r tywydd yn wlyb teithiodd y Clwb y pellter byr i Benarth i wynebu Old Pens Mariners. Roedd y timau i gwrdd dwy wythnos yn olynol gan chwarae unwaith yn y gynghrair ac unwaith yng nghystadleuaeth y Fowlen. Roedd yr ornest gyntaf yn un agos gyda'r sgôr yn gyfartal 5-5 yn arwain at funud olaf y gêm. Yn yr amodau gwlyb rhoddodd gnoc ymlaen gan y Clwb sgrym i'r Mariners ar eu llinell 5 medr ymosod a'u gweld yn croesi i sgorio gan roi buddugoliaeth o 12-5 iddynt.


Ni chafodd Clwb eu digalonni gan y golled gyntaf hon o'r tymor. Yn fwy penderfynol nag erioed dychwelodd y Clwb i Benarth ar gyfer cystadleuaeth y Fowlen. Gyda'r amodau mor wlyb â'r wythnos flaenorol roedd y gêm yn llawn eiliadau gwefreiddiol a llwyddodd y Clwb i arddangos gwytnwch a phenderfyniad i ddod yn fuddugol o 17-10 a sicrhau lle yn rownd yr wyth olaf.

Dechreuodd y Clwb ar rediad cwpan cofiadwy, gan wynebu gwrthwynebwyr cryf. Roedd y tîm yn arddangos eu hyblygrwydd a'u gallu i addasu wrth iddynt ddatblygu trwy'r rowndiau. Yn rownd yr wyth olaf yn erbyn Doc Penfro, teithiodd y Clwb i'r Gorllewin i wynebu tîm arbennig o gryf yn enwedig yn y blaenwyr ond llwyddodd y Clwb i ennill 35-5. Yn y rownd gyn-derfynol trefnwyd i'r Clwb chwarae yn erbyn Ffynnon Taf mewn darbi lleol, ond ar y funud olaf newidiwyd y gêm a bu'n rhaid i'r tîm deithio i'r gogledd i wynebu Abergele. Gyda thîm anghyfarwydd yn bennaf heblaw am gyn aelod y Clwb, Ela Rowlands, oedd wedi symud i dîm Abergele ar ddechrau'r tymor, nid oedd y Clwb yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Wedi taith hir roedd y Clwb yn benderfynol o sicrhau lle yn y rownd derfynol yn Stadiwm Principality. Ar ôl cychwyn araf roedd Clwb yn dominyddu gan gipio'r fuddugoliaeth o 36-7.

Llwyddodd y Clwb i gyrraedd y rownd derfynol yn stadiwm y Principality, a hynny ddim ond saith mlynedd ar ôl ei sefydlu. Yng ngêm derfynol hir ddisgwyliedig y Fowlen yn erbyn Hwlffordd, gwelwyd y Clwb yn chwarae gêm anoddaf y tymor yn stadiwm eiconig y Principality. Cefnogwyd y merched gan dros 250 o gefnogwyr Clwb ac er iddynt roi un o'u perfformiadau gorau o'r tymor, cawsant eu curo gan Hwlffordd o 20-17.

Profodd y tymor yn un hynod i Ferched Clwb Rygbi Cymry Caerdydd, yn llawn buddugoliaethau, heriau, ac eiliadau o ddisgleirdeb rygbi pur. Roedd eu hymroddiad, eu sgiliau a'u hysbryd tîm yn amlwg ym mhob gêm. Ar ddiwedd y tymor rhoddodd y prif hyfforddwr, Caryl James, y gorau iddi ar ôl bod gyda'r garfan am saith mlynedd. Llwyddodd i'w datblygu a'u helpu i dyfu - o garfan newydd i dîm yn rownd derfynol Stadiwm y Principality. Wrth i Ferched Clwb nawr edrych ymlaen at y tymor nesaf, nod y tîm yw adeiladu ar eu cyflawniadau, cadarnhau eu statws fel tîm cystadleuol, a pharhau i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol o chwaraewyr rygbi benywaidd.

## Gwobr Tir na n-Og






Llongyfarchiadau i Huw a Luned Aaron am fod yn fuddugol yng nghategori cynradd gwobrau Tir na n-Og 2023 am eu llyfr *Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor.*

# Cipolwg yn Ôl

Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â llwyddiant y Côr Caerdydd presennol. 'Roedd Côr Caerdydd arall ddegawdau yn ôl. Dyma lun o'r côr hwnnw yn 1935 dan arweiniad Teddy Richards, organydd y Tabernacl.


Tybed a oes yna unrhyw wyneb cyfarwydd I'w weld yma?

Cadeirydd y Côr a chyfaill agos i Teddy Richards oedd Morgan Davies Y.H., trysorydd y capel a chynghorydd dylanwadol yng Nghaerdydd yn nhridegau a phedwardegau y ganrif ddiwethaf.

Cewch glywed mwy o hanes ei fywyd lliwgar cyn bo hir.

*Sian Morgan Thomas*





CÔR CAERDYDD

CONCERT

*On TUESDAY, 23rd JULY, 1935*

IN

THE ASSEMBLY ROOM
CITY HALL :: CARDIFF

*Souvenir Programme*

Llun ar y chwith:
Teddy Richards a Morgan Davies



# Gweithgaredd yr Urdd

**Taith Côr Gospel UAB i Gymru**

Ym mis Mehefin 2023 teithiodd Côr Gospel Prifysgol Birmingham, Alabama (University of Alabama at Birmingham) i Gymru er mwyn perfformio a dysgu mwy am ddiwylliant y wlad.

Yn ystod eu hymweliad cafodd y côr flas o'r brifddinas ac aros yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd, gan ymweld â'r Castell, canol y ddinas a Sain Ffagan. Cawsant hefyd gyfle i berfformio i'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, mewn digwyddiad yn y Senedd ac i gymuned ardal Butetown yng Nghanolfan Gymunedol Butetown.

Teithiodd y côr i Lanymddyfri i ymweld ag Eisteddfod yr Urdd ar gyfer diwrnod llawn o berfformio i bobl ifanc Cymru, yn ogystal â phrofi a mwynhau bwrlwm yr ŵyl. Cafwyd yno weithdy gospel a pherfformiad ar y cyd â Mared Williams yn y Garddorfa, a pherfformiad o ganeuon gopsel yn Gymraeg i'r holl aelwydydd ar y brif lwyfan.

Ar ddiwrnod olaf eu hymweliad â Chymru, gwahoddwyd y côr i berfformio yn nadorchuddiad murlun gwrth-hiliaeth Neges Heddwch yr Urdd yn Adamsdown – y murlun dwyieithog cyntaf yng Nghaerdydd. I gloi'r daith cafwyd cyngerdd arbennig ar y cyd ag Aelwyd y Waun Ddyfal yng Nghapel Gymraeg Salem. Roedd hon yn noson fythgofiadwy i gynulleidfa lawn wrth i nifer brofi canu gospel yn fyw am y tro cyntaf erioed. Diolch yn fawr i bawb ddaeth draw i gefnogi'r noson.

**Gemau Stryd yr Urdd**

Teithiodd pencampwyr Gemau Stryd Cymru a'r byd i Fae Caerdydd penwythnos 16-18 Mehefin i gymryd rhan yn nigwyddiad Gemau Stryd yr Urdd, yr unig ddigwyddiad sy'n cynnig llwyfan cenedlaethol i'r gemau yng Nghymru.

Am y tro cyntaf eleni, cyflwynwyd tair cystadleuaeth newydd i'r Gemau - sef Bowldro, Dawnsio Stryd a Sglefrfyrddio Stryd. Braf oedd croesawu dros 100 o ddringwyr profiadol, ynghyd a'u cefnogwyr, i'r gystadleuaeth Bowldro yng nghanolfan Flashpoint ar noson gyntaf Gemau Stryd yr Urdd.

Cystadlodd dros 550 o blant a phobl ifanc yn y Gemau dros y penwythnos, gyda'r digwyddiad dwyieithog yn cynnig categorïau fel BMX, Sglefrfyrddio, Sgwtera, a 'Breakin' wrth i'r Urdd gyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfa newydd.






# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Daeth tymor cyfredol Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd i ben mewn parti gardd yn Creigiau. Roedd y tywydd a'r wledd yn bartneriaid delfrydol. Mae rhaglen y tymor nesaf yn dechrau ar nos Lun yr ail o Hydref, yn y New House Country Hotel gyda Dafydd Wigley ac Elinor Bennet yn ein diddanu. Mae'r Cylch Cinio wedi llwyddo i sicrhau ystafell foethus gyda digon o le i lawer mwy o aelodau nag oedd yr arfer. Felly, gwnewch nodyn yn y dyddiadur i gadw nos Lun cyntaf bob mis yn rhydd i ymuno yn y cinio arferol yng nghwmni rhestr amrywiol o westeion. Mae cynhyrchydd *Songs of Praise* a rhaglenni S4C o'r Eisteddfodau, Emyr Afan, yn ogystal â Geraint Cynan, yn dod atom cyn y Dolig. Yn y flwyddyn newydd, bydd Manon Antiozte, yr Athro Medwin Hughes, Rob Nicholls ac eraill yn galw heibio. Am ragor o wybodaeth ynghylch Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd neu i gofrestru eich bwriad o ymuno â ni yn yr Hydref, cysylltwch â'n hysgrifenyddion Ann Willams neu Paul Morgan ar cylch.cinio@gmail.com.

***Arwel Ellis Owen, Llywydd y Cylch***

*(gweler llun ar y clawr)*



15.07.23 - 16.07.23 | PARC BUTE
CERDDORIAETH | CELFYDDYDAU
BWYD STRYD | STONDINAU CREFFT
TAFWYL
2023
BWNCATH | BAND PRES LLARREGUB | MARED
DAFYDD IWAN | TECWYN IFAN | LLOYD & DOM +
SAGE TODZ | BRIGYN | CANDELAS | TARA
BANDITO | HANA LILI A LLAWER, LLAWER MWY...
DATHLIAD Y DINESYDD YN 50 - LLWYFAN LLAIS
11:00 DYDD SUL
AM DDIM | DIM ANGEN TOCYN
WWW.TAFWYL.ORG

## Rhif: 234

**DINES**

**Ar Draws**
1. Yn ddramatig o gerddorol (8)
5. ‘A fo ben, bid -----’ (4)
9. Rhywbeth bach iawn ar ddechrau bywyd ifanc Tomos Wyn (4)
10. Tywyllu ar ddechrau diwrnod unig ofnadwy (3)
11. Llifo i mewn i’r bae stormus yn ôl i’r hen ddinas (5)
12. ‘Llawenydd yw cofio er cymaint a roed,
Fod ----- y nefoedd mor fawr ag erioed’ (ER) (5)
13 ‘----- ----- ----- ----- -----
Ni, bechaduriaid gwael’ (JT) (2,4,2,3,2)
18. 20 yn colli cant a hanner mewn chwe deg munud (3)
19. Offeryn cerdd yn boenus i’r droed (4)
20. Dyn mawr yn dal pum deg caead (5)
21. Coed o’r tir gwlyb (5)
22. Gwasgu’r diderfysg yn hyfforddiant (4)
23. ‘Ar ----- Cymru gynt
Newid ddaeth o rod i rod’ (JCH) (8)

**I Lawr**
2. Siarad â’r llawen yn ei wely plu (7)
3. Trebor yn cefnu cyn ddechrau Awst ar hon (7)
4. ‘Er ----- ----- ----- a thon
Ar bererindod maith’ (JJW) (3,7,3)
6. Mewn coed o lynnoedd hynafol gweler un yn ei lawn dwf (7)
7. Telor Edward bach yn canu am fan i ddisgyn (7)
8. Gofod heb ddim ynddo (6)
13. Gorchudd i lanc mewn gwely yn Lloegr (7)
14. Rhywbeth i roi sglein ar Ifan cyn dechrau’r steddfod (7)
15. Disc ar bapur (6)
16. Y rhai sy’n gwella sy’n gwybod yn dilyn rhew ddechrau Chwefror (7)
17. ‘Mwy o boen sy ar rai yn gwario
Nag ar eraill yn -----’ (tradd) ((7)



**Enillydd Croesair Rhif 232**
**Eluned Edwards, Llandaf**

**Atebion Croesair Rhif 232**

**Ar Draws:** 1. Acen 3. Cymdogol 8. Ysig 9. Cwestiwn 11. Cariad,cariad 13. Dim ond 14. Gwneud 17. Chwarterolion 20 Ystradau 21. Agos 22. Chwarteru 23. Crydd

**I Lawr:** 1. Ac yn codi 2. Epigram 4. Y mwnci 5. Distrywiol 6. Gwina 7. Linc 10 Hanner cant 12. Y Dinesydd 15. Epilgar 16. Cesair 18. Wfftia 19. Cylch

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Medi 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Y DIGWYDDIADUR

### Awst

**Sadwrn, 5 Awst**
Organathon. Tabernacl ar yr Ais
**Sadwrn, 19 Awst**
Organathon. Tabernacl ar yr Ais
**Llun, 21 Awst (11.00 am)**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina
Y Deri, Rhiwbina. Cyfle am baned neu ddiod a sgwrs. Manylion Pellach: Dilwyn Jones, Ysgrifennydd (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653)

**Mawrth, 22 Awst (10.30 – 1.00 pm)**
Taith Gerdded Menter Caerdydd
Y Bont-faen
Pris: £3.50.
Manylion pellach: Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru)

### Medi

**Mercher, 6 Medi (7.30 pm)**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Trystan a Siân Francis fydd yn ein diddanu ar noson agoriadol y gangen. Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.
Manylion Pellach: Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545)

**Llun, 18 Medi (7.30 pm)**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina
Siaradwr: Tim Hartley
Capel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ. Dyma gyfarfod cyntaf y tymor. Croeso i aelodau hen a newydd. Manylion Pellach: Dilwyn Jones, Ysgrifennydd (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Anfonwch fanylion ar gyfer
Y Digwyddiadur at
Yr Athro E. Wyn James
16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 2AJ
(029-2062-8754;
JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

## Holl Hwyl yr Haf gyda'r Mentrau

Mae'r haf wedi cyrraedd ac mae criw Menter Caerdydd yn prysur baratoi ar gyfer Tafwyl. Edrychwn ymlaen at eich gweld ar Gaeau Cooper penwythnos 15 a 16 Gorffennaf. Dewch i wrando ar y bandiau a'r sgyrsiau, crwydro'r stondinau, a dathlu bywyd Cymraeg y brifddinas. Rydym yn dal i chwilio am wirfoddolwyr felly os oes gennych ychydig o oriau yn i'w sbario, cysylltwch! Fe gewch chi lawer o hwyl – a chrys-T a thocyn bwyd wrth gwrs!

Bydd digon o fwrlwm yn yr Ŵyl Ffrinj hefyd, gan gynnwys Dragwyl yng nghwmni Connie Orff a'i ffrindiau yng Nghanolfan y Mileniwm. Cofiwch wisgo'n *glam*!

Dyma flas i chi o weddill ein harlwy dros yr haf:

**Taith Natur Tafwyl (prynhawn Sul, 9 Gorffennaf)**

Dewch am dro i ddysgu mwy am fyd natur yn y brifddinas yng nghwmni arbenigwyr o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a Ffrindiau Fferm y Fforest. Mae'r daith yn rhad ac am ddim ac yn addas i oedolion a phlant dros 8 oed. Byddwn yn crwydro ar lan yr afon ac ar hyd y llwybrau cyhoeddus yn ardal Fferm y Fforest i weld rhai o ryfeddodau natur Caerdydd.

**Parti yn y Parc (bore Llun, 10 Gorffennaf, Parc y Rhath)**

Fel rhan o Ffrinj Tafwyl, byddwn yn cynnal 'Parti yn y Parc' i blant bach a'u teuluoedd yng nghwmni Siani Sionc. Bydd cyfle i ganu a dawnsio a mwynhau picnic yng nghwmni ffrindiau. Croesi bysedd am dywydd braf!

**Gweithgareddau awyr agored**

Er bod ein taith ystlumod yn Sain Ffagan bellach yn llawn, bydd digon o gyfle i gerdded a sgwrsio dros yr haf. Bydd criw 'Cerdded a Chlonc' yn cwrdd ym Mharc Bute, fore Iau, 6 Gorffennaf, ac wedi hoe fach ym mis Awst, byddwn ni nôl ym Mharc y Rhath ar fore Iau cyntaf mis Medi.

Parc Gwledig Cosmeston ym Mhenarth fydd y lleoliad ar gyfer ein taith gerdded ar nos Fawrth, 22 Awst. Dewch am dro hamddenol o gwmpas y parc a'r llyn!

**Y Cwis Mawr: Rownd Caerdydd (nos Iau, 6 Gorffennaf, Institiwt Llandaf)**

Beth am ymuno â ni yn Institiwt Llandaf ar gyfer Rownd Caerdydd o'r Cwis Mawr? Dyma gwis cenedlaethol a drefnir gyda chymorth Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Y syniad yw dod â siaradwyr newydd a rhugl ynghyd i fwynhau noson o gystadlu hwyliog. Bydd digon o chwerthin yng nghwmni'r cwis-feistr profiadol, Aled Wyn Phillips, a chyfle i'r tîm buddugol fynd ymlaen i'r rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ewch i'r wefan i gofrestru eich tîm!

**Gweithgareddau gwyliau i blant cynradd**

Rydym yn edrych ymlaen at gynnal ein sesiynau chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas Caerdydd a Bro Morgannwg. Cewch hyd i'r manylion llawn ar wefannau'r Mentrau wrth i'r gwyliau ysgol agosáu. Bydd y Cynllun Gofal hefyd yn dychwelyd i Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd, gyda'r ddarpariaeth yn dechrau ar 7 Awst. Byddwn hefyd yn cynnal 'Gweithdy Gwau' yn Hyb Treganna ar 30 Awst i blant rhwng 8 a 12 oed. Rydym yn eu hannog i ddod ag oedolyn gyda nhw i fwynhau gweithgaredd rhyng-genedlaethol. Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly cofiwch gofrestru'n gynnar!

Bydd Sgwrs y Mis, Mewn Tiwn, Amser Stori a nifer o'n sesiynau rheolaidd eraill yn cymryd saib dros yr haf ac yn dychwelyd ym mis Medi.

Os hoffech fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer plant neu oedolion, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm. Neu dewch draw i'n gweld ni ar ein stondin yn Tafwyl; edrychwn ymlaen at gael sgwrs!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: MenterCaerdydd a MenterBroMorgannwg
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

